



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru 2016



Mawrth 2016

Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon ar gyfer aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn yr agenda Cynhwysiant Ariannol. Mae'r meysydd polisi eang a gwmpesir gan y Strategaeth yn golygu y bydd gan gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddiddordeb yn y ddogfen.

Trosolwg

Mae'r ddogfen yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru o gael system ariannol gynhwysfawr sy'n gweithio'n dda ac sy'n hygyrch i bawb yng Nghymru. Mae'n esbonio sut mae angen i ni weithio gyda sefydliadau partner, yng Nghymru ac ar lefel y DU, i helpu i wella mynediad at wasanaethau credyd ac ariannol fforddiadwy, yn ogystal â mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyledion. Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn amlinellu hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr angen i wella gallu ariannol yng Nghymru yn sail i fynediad at wasanaethau a chyngor ariannol.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Cynhwysiant Ariannol

Yr Is-adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

e-bost: FinancialInclusion@cymru.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/debt/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau cysylltiedig

Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?status=closed&lang=cy>

Strategaeth Tlodi Plant

<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?lang=cy>

Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/equality-objectives/?skip=1&lang=cy>

Rhagair y Gweinidog

Mae mynd i'r afael ag allgáu ariannol yn flaenoriaeth allweddol o hyd i Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn hyd yn oed yn bwysicach yn y cyfnod economaidd ansicr sydd ohoni pan fydd angen i ni flaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn erbyn tlodi ac ymyleiddio.



Ers i ni gyhoeddi ein Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn 2009, mae hinsawdd economaidd y DU wedi cael effaith uniongyrchol ar allu teuluoedd o Gymru i reoli incwm yr aelwyd. O ganlyniad i hyn ac i'r newidiadau i fudd-daliadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, mae gwasanaethau cyngor ar ddyled ac arian yn dod yn elfen fwy hanfodol o'r frwydr gyson yn erbyn mynd i ormod o ddyled ac allgáu ariannol yng Nghymru. Er na allwn ni amddiffyn pobl Cymru yn erbyn y ffactorau allanol hyn, bydd y mesurau rydym wedi'u datblygu ac y byddwn yn parhau i'w datblygu yn y dyfodol yn gymorth i'r rhai sy'n wynebu problemau ariannol.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2016 ar ei newydd wedd yn cadarnhau ein huchelgais i gefnogi system ariannol gynhwysfawr sy'n gweithio'n dda yng Nghymru ac sydd ar gael i bawb. Mae'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau partner i helpu i wella mynediad i wasanaethau ariannol a chredyd fforddiadwy a mynediad i wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled. Hefyd, mae'r Strategaeth yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod yr holl elfennau hyn yn seiliedig ar yr angen i wella gallu ariannol yng Nghymru. Er mwyn meithrin gallu ariannol, mae angen hyder, gallu a chymhelliant ar unigolyn i ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth hanfodol yn ei sefyllfa benodol ei hun. Bydd hyn yn ei helpu i reoli ei gyllid yn well a gwneud mwy o benderfyniadau ariannol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Bydd y Strategaeth hon yn datblygu'r gwaith pwysig sydd wedi'i gwblhau ers 2009. Mae'n bwysig nodi rhai o'n llwyddiannau hyd yma. Er enghraifft, rydym wedi parhau i gefnogi gwasanaethau cyngor rheng flaen, ac rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Hefyd, bydd yn datblygu cynllun mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau cyngor o ansawdd yng Nghymru sy'n seiliedig ar wybodaeth am fylchau mewn darpariaeth ac anghenion pobl. Yn ogystal, rydym wedi parhau i gefnogi Undebau Credyd yn eu hymdrech i hyrwyddo benthyca moesegol a chyfrifol i bobl a fyddai'n wynebu allgáu ariannol fel arall. Hefyd, rydym wedi cyflwyno trefniadau drwy ein Cronfa Cymorth Dewisol i ddiogelu pobl mewn argyfwng drwy wneud taliadau grant am symiau bach i'r bobl fwyaf anghenus.

Mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith fod mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn fater traws-lywodraethol sy'n berthnasol i bob adran. Mae'n nodi sut y byddwn yn gobeithio gweithio gyda sefydliadau partner yng Nghymru a'r DU i helpu i wella mynediad i wasanaethau ariannol a chredyd fforddiadwy, a mynediad i wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled. Edrychaf ymlaen at weld y Strategaeth yn cael ei rhoi ar waith.

A handwritten signature in cursive script that reads 'Lesley Griffiths'.

Lesley Griffiths AC

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol	5
Y sefyllfa ar hyn o bryd	6
Gweithio Gyda'n Gilydd	13
Themâu Craidd	20
Mynediad at Gredyd a Gwasanaethau Ariannol Fforddiadwy	22
Mynediad at Wybodaeth Ariannol, gan gynnwys Cyngor ar Ddyled	32
Meithrin Dealltwriaeth a Gallu Ariannol	38
Camau Nesaf	48
Geirfa	49

Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, 'Mae Pawb yn Cyfrif', i hoelio'i sylw ar wella gwasanaethau ariannol i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol yng Nghymru. Mae gwneud hyn yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru o hyd ac mae'n cefnogi ein nod o drechu tlodi.

Mae'r sefyllfa economaidd ac ariannol yng Nghymru ers y dirywiad economaidd gwreiddiol yn 2008 wedi cynyddu'r her o fynd i'r afael ag allgáu ariannol. Mae effeithiau'r dirwasgiad a rhaglenni cyni a diwygio lles Llywodraeth y DU wedi dangos nad dim ond pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol sydd wedi wynebu trafferthion ariannol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae allgáu ariannol yn effeithio'n bennaf ar bobl ar incymau isel neu ansefydlog, pobl sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, unig rieni, pobl ifanc nad oes ganddynt gymorth uniongyrchol gan eu teulu, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ddiwygiadau lles neu'r rhai sydd wedi profi digwyddiad o bwys heb ei gynllunio, fel colli eu swydd, profedigaeth neu salwch sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd. Waeth pa mor dda mae pobl ar incwm isel am gyllidebu, gall un digwyddiad annisgwyl a drud heb ei gynllunio fod yn drychinebus oherwydd nad oes ganddynt rwyd ddiogelwch ddigonol, os o gwbl, wrth gefn. Mae tua phedwar o bob deg oedolyn yng Nghymru yn methu rheoli eu harian o ddydd i ddydd cystal ag y gallent, a dim ond chwarter yr oedolion o oedran gweithio yng Nghymru sydd â chynilion sy'n gyfwerth ag incwm tri mis neu fwy¹.

Gall allgáu ariannol effeithio ar bobl ar wahanol adegau o'u bywydau a gall pobl symud yn ôl ac ymlaen rhwng cynhwysiant ariannol ac allgáu ariannol sawl gwaith yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Er bod cymorth i bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae'r agenda cynhwysiant ariannol yn ehangach na hyn. Mae hon yn strategaeth gynhwysfawr sy'n cynnwys pawb, o bobl sydd mewn trafferthion ariannol ar hyn o bryd i bobl sydd ag arian i'w fuddsoddi. Gall rheoli arian yn dda olygu sawl peth – gan gynnwys peidio â gwario mwy nag sydd gennych, cynilo ar gyfer amcanion tymor byr neu dymor hir neu gael cynllun ymarferol i dalu'ch dyledion.

“Financial inclusion means belonging to a modern mainstream financial system that is fit-for-purpose for everyone, regardless of income. It is essential for anyone wanting to participate fairly and fully in everyday life. Without access to appropriate mainstream financial services, people pay more for goods and services and have less choice. The impacts of exclusion are not just financial but also affect education, employment, health, housing and overall well-being.” (Comisiwn Cynhwysiant Ariannol y DU²)

Er mwyn sicrhau cynhwysiant ariannol mae angen cynhwysiant digidol, sy'n rhoi'r gallu a'r hyder i bobl gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau ariannol ar-lein er

¹ Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, *Financial Capability in Wales 2015*

² <http://www.financialinclusioncommission.org.uk/report>

mwyn gallu cael rhagor o ddewisiadau, gan gynnwys rhai cynigion nad ydynt ar gael mewn canghennau neu siopau. Mae gallu digidol yn dod yn fwyfwy pwysig wrth sicrhau bod pobl yn gallu gwneud a rheoli hawliadau am fudd-daliadau oedran gweithio ar-lein a chwilio am waith.

Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon yn datgan sut mae Llywodraeth Cymru am weithio gyda sefydliadau partner – yng Nghymru ac ar lefel y DU – i wella mynediad at gredyd a gwasanaethau ariannol fforddiadwy, gwella mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled, a meithrin dealltwriaeth a gallu ariannol, fel bod gan bobl y sgiliau a'r wybodaeth i allu manteisio'n llawn ar y gwelliannau hyn.

Mae rhai o'r ymrwymïadau yn y Strategaeth hon yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, rydym yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod eu pwysigrwydd a'u heffaith bosibl, ac felly rydym wedi penderfynu eu cynnwys. Byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu ar lefel y DU er mwyn cyflawni ein hamcanion, boed hyn gyda Llywodraeth y DU ar Ddiwygio Lles neu sefydliadau ariannol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau neu fforddiadwyedd.

Wrth wraidd y Strategaeth hon mae'r angen i wella gallu ariannol yng Nghymru. Er ei bod yn bwysig gwella mynediad at gredyd fforddiadwy, gwasanaethau ariannol a chynghor ar ddyled, mae'n bwysig cofio nad yw darparu gwasanaeth yn golygu bod pobl yn ymwybodol ohono, yn dueddol o'i ddefnyddio neu'n gallu manteisio arno i'r eithaf.

Mae Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddatblygu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon a bydd y Grŵp ar ei newydd wedd yn gyfrifol am oruchwylio cynnydd yn erbyn ymrwymïadau'r Strategaeth trwy gynllun cyflenwi a fydd yn eu rhoi ar waith. Daw aelodau'r Grŵp o sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl iddynt gyfrannu at weithredu ymrwymïadau'r Strategaeth, ochr yn ochr â phartneriaid eraill.

Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd corff annibynnol o arbenigwyr o blith seneddwyr, y trydydd sector a'r byd academiaidd (wedi'i ariannu gan y diwydiant gwasanaethau ariannol), sef Comisiwn Cynhwysiant Ariannol y DU, adroddiad yn nodi cyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth y DU, ond a fyddai o fudd i bobl Cymru hefyd. Un argymhelliad oedd datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y DU, wedi'i chydlynu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS). Lanswyd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol y DU, wedi'i pharatoi gan MAS, ar 28 Hydref 2015.

Mae'r diffiniad o allu ariannol y mae MAS wedi cytuno arno a'i ddefnyddio yn ehangach na'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu'r elfennau mwy cyfarwydd sef gwybodaeth, sgiliau, agweddau a chymhelliant (y cyfeirir atynt fel Meddylfryd a Gallu (Mindset and Ability) gan MAS). Yn ogystal, mae diffiniad MAS o allu ariannol yn cynnwys mynediad at wasanaethau a chynhyrchion ariannol (Cysylltiad (Connection) yn ôl MAS). Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y rhain yn gyfranwyr allweddol at gynhwysiant ariannol ynddynt eu hunain.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol, rydym wedi cynnwys elfennau o adran Cymru o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol MAS yn themâu craidd y Strategaeth hon, lle bo hynny'n briodol.

Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Ein gweledigaeth ar gyfer Cynhwysiant Ariannol yng Nghymru yw bod pawb sy'n byw yng Nghymru yn gallu cael mynediad at wasanaethau ariannol priodol a fforddiadwy, yn gallu cael cymorth gan wasanaethau gwybodaeth a chyingor sy'n destun prosesau sicrhau ansawdd ac yn meddu ar y gallu ariannol a'r cymhelliant i elwa ar y gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt.

Bydd gwireddu'r weledigaeth hon yn gyfraniad pwysig at drechu tlodi a chynorthwyo pobl sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.

Yn unol â safbwynt y Comisiwn Cynhwysiant Ariannol, mae hyn yn golygu Cymru lle mae:

- pawb yn cael yr addysg ariannol sydd ei hangen arnynt, naill ai mewn ysgolion, yn y gymuned neu mewn lleoliad arall, sy'n parhau gydol eu hoes ac ar ôl ymddeol;
- pawb yn gallu cael gwybodaeth a chyingor diduedd a dealladwy ar gredyd, dyled, cynilion a phensiynau, a hynny ar yr adeg a thrwy'r cyfrwng sy'n gweddu orau iddynt;
- gan bob oedolyn gyfrif trafodol ei hun a'r gallu i'w ddefnyddio'n llawn;
- pawb yn gallu cael credyd fforddiadwy a phriodol gan fenthycwyr cyfrifol;
- pawb yn cael ei annog i gynilo, hyd yn oed symiau bach neu achlysurol, i ddangos pwysigrwydd diwylliant cynilo, i adeiladu sicrwydd yn erbyn ergydion ariannol ac fel adnodd ychwanegol ar gyfer ymddeoliad;
- pawb yn gallu cael yr yswiriant cywir ar gyfer ei anghenion, am bris teg.

Mae'n bosibl y bydd rhwystrau gwahanol i wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer grwpiau penodol o bobl sy'n agored i niwed, er enghraifft pobl sy'n byw mewn tlodi, neu bobl sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y Cynllun Cyflenwi sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth hon yn nodi'r meysydd lle mae angen camau gweithredu penodol.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Roedd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynhwysiant Ariannol 2009 yn nodi camau gweithredu o dan bum thema graidd, gan gynnwys gwella mynediad at wasanaethau prif ffrwd, mynediad at fenthyciadau fforddiadwy a chynilion, gwella mynediad at gyngor ar ddyled, llythrennedd a gallu ariannol, a manteisio i'r eithaf ar incwm.

Rydym wedi gweld nifer o lwyddiannau arwyddocaol mewn perthynas â chynhwysiant ariannol ers cyhoeddi'r Strategaeth yn wreiddiol, gan gynnwys:

- cyflwyno'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cynorthwyo gwasanaethau cyngor rheng flaen i allu rhoi cyngor annibynnol a di-dâl i bobl ar yr arian y mae ganddynt hawl iddo, dyled a materion yn ymwneud â thai;
- cynorthwyo'r prosiect Cyngor Da: Byw'n Well sy'n helpu pobl yn ardaloedd difreintiedig Cymru i fanteisio ar eu hincwm;
- sefydlu Rhwydwaith Cyngor Cymru, sy'n dwyn ynghyd bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol;
- cynorthwyo Undebau Credyd i'w helpu i barhau i gynorthwyo'u haelodau sy'n oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ac annog aelodau iau, gyda nifer yr aelodau wedi cynyddu o bron 50,000 yn 2010 i bron 80,000 ym mis Mehefin 2015.

Ers cyhoeddi Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2009, mae dirwasgiad 2008/09 wedi cael effaith enfawr ar Gymru o ran diweithdra a lefelau cyflogau.

Yn ôl Adroddiad Monitro Cynhwysiant Ariannol 2015³, sy'n defnyddio setiau data o Wasanaeth Data'r DU, mae tâl cyfartalog yr awr yn y DU yn is o hyd, mewn termau real, nag oedd cyn y dirwasgiad ac roedd mwyafrif y bobl yn y DU (53% yn 2015) yn gwario llai er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Dywed yr adroddiad fod llawer o bobl yn cwtogi ar bethau dianghenraid fel bwyta allan a bwyd moethus ond mae un ym mhob deg yn gwario llai ar wres ac mae un ym mhob ugain yn gwario llai ar eitemau bwyd bob dydd.

Disgynnodd cyfraddau llog o 5 y cant yn 2008 i 0.5 y cant, yr isaf erioed, erbyn mis Mawrth 2009 ac nid ydynt wedi codi eto erbyn gwanwyn 2016. Pan fydd cyfraddau llog yn dechrau codi eto, bydd hynny'n debygol o gael effaith ym mhob rhan o'r economi. Yn benodol, gall yr effaith ar forgeisi arwain at gynnydd mewn adfeddiannu eiddo. Nid dim ond perchnogion tai fydd yn teimlo'r effaith. Gallai pobl sy'n rhentu yn y sector preifat wynebu problemau os bydd eiddo'u landlord yn cael ei adfeddiannu, yn enwedig yn y farchnad prynu i osod.

Ledled Prydain, mae biliau ynni wedi codi 13% yn y pum mlynedd ddiwethaf, sy'n golygu efallai y bydd mwy o aelwydydd yn gorfod gwario llai ar flaenoriaethau eraill neu fynd i ddyled er mwyn talu biliau tanwydd.

³ *Financial Inclusion Monitoring Report 2015*, Prifysgol Birmingham a'r Friends Provident Foundation

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am gredyd cost uchel, cyflym wedi cynyddu. Yn sgil cyfyngiadau newydd ar fenthyciadau diwrnod cyflog, mae pobl wedi dechrau cymryd benthyciadau llyfr cofrestru a benthyciadau gwarantwr yn lle. Gwelwyd cynnydd cyfatebol yn nifer y cwmnïau sy'n cynnig benthyciadau credyd uchel mewn adeiladau ar y stryd fawr yng Nghymru, ochr yn ochr â gwystlwyr a'u tebyg.

Mae darparwyr cyngor yn dweud bod natur y problemau dyled y mae eu cleientiaid angen cyngor yn eu cylch yn newid, gyda mwy yn gofyn am gyngor ar ddyledion yn ymwneud â biliau'r aelwyd, gan gynnwys bod ar ei hôl hi gyda thaliadau rhent neu'r dreth gyngor a biliau gwasanaethau fel nwy, trydan, dŵr ac ati.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru,⁴ roedd 36 y cant o bobl yn cael trafferth talu biliau ac ad-dalu benthyciadau, naill ai'n achlysurol neu roeddent mewn trafferthion ariannol go iawn. Fodd bynnag, dim ond 4 y cant o'r bobl a atebodd oedd wedi defnyddio gwasanaethau sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar ddyled a chymorth ar gyfer problemau dyled yn ystod y flwyddyn a oedd newydd fynd heibio. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i wella ymwybyddiaeth o gyngor arbenigol ar ddyled a chynyddu mynediad at wasanaethau o'r fath.

Diwygio Lles

Arweiniodd Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU at y newid mwyaf i'r system les ers dros 60 mlynedd. Roedd prif elfennau'r Ddeddf Diwygio Lles yn cyflwyno dau fudd-dal newydd: Credyd Cynhwysol sy'n disodli chwe budd-dal cysylltiedig ag incwm/seiliedig ar incwm cyfredol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer pobl o oedran gweithio sy'n gweithio neu ddim yn gweithio, a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP).

Dechreuodd y DWP gyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol yn 2014. Bydd y broses o ehangu Credyd Cynhwysol ledled y wlad yn cynnwys ceiswyr gwaith sy'n hawlio o'r newydd fel unigolion ym mhob rhan o'r DU erbyn mis Mawrth 2016. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd y DWP y byddai'r gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn ar gyfer hawliadau newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn genedlaethol ar gyfer hawlwyd o bob math o fis Mai 2016, ac y byddai'r broses yn cael ei chwblhau erbyn haf 2018.

Mae DWP wedi bod yn gweithio'n agos gydag adrannau Llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol a chyrff cynrychiolwyr awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith Cyflenwi Cymorth Cynhwysol yn Lleol i helpu'r hawlwyd mwy agored i niwed a chymhleth gyda'r newid o'r hen fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol. Mae treialon, gan gynnwys dau yng Nghymru (Blaenau Gwent a Sir Gâr), wedi profi'r trefniadau partneriaeth cefnogol ar gyfer blaenoriaethu, cynhwysiant ariannol (gan gynnwys cymorth gyda chyllidebau personol) a chynhwysiant digidol.

Budd-dal ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed sydd â chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd yw'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP). Mae hawlwyd sy'n derbyn Lwfans

⁴ Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif Ganlyniadau, Ebrill 2014-Mawrth 2015 (diwygiedig)

Byw i'r Anabl wedi gorfod dechrau hawlio PIP adeg adnewyddu eu hawliad. Mae DWP yn gofyn yn raddol i hawlwr Lwfans Byw i'r Anabl sydd â dyfarniad hirdymor neu benagored hawlio PIP.

Yn dilyn cyllideb Haf 2015 Llywodraeth y DU a Datganiad yr Hydref 2015, bydd newidiadau treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU sydd i'w cyflwyno rhwng 2015/16 a 2019/20 yn lleihau incwm aelwydydd yng Nghymru tua £600 miliwn y flwyddyn. Er y bydd aelwydydd yng Nghymru yn colli tua'r un swm o incwm bob blwyddyn ar gyfartaledd ag aelwydydd yn y DU gyfan, bydd canran yr incwm a gollir yng Nghymru yn uwch oherwydd bod incymau cyfartalog yn is yma. Bydd y gostyngiad hwn yn ychwanegu at y swm sylweddol o incwm sydd eisoes wedi'i gollu oherwydd toriadau blaenorol i fudd-daliadau. Bydd y Bil Diwygio Lles a Gwaith yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yng Ngwanwyn 2016.

Yn 2015, cytunodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ar Ddiwygio Lles ar flaenraglen ymchwil i asesu effaith y diwygiadau lles ac ystyried yr effeithiau tebyg ar grwpiau incwm gwahanol, mathau o deuluoedd a phobl â nodweddion gwarchodedig, ymysg meysydd gwaith ymchwil eraill. Mae adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud?

Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n annog Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner i feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithio mewn dull mwy cydlynol. Bydd y Cynllun Cyflenwi yn dangos sut mae egwyddorion y Ddeddf wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y Strategaeth hon yn cyfrannu i'r graddau mwyaf posibl at y saith nod llesiant.

Bydd y broses o roi ymrwymadau'r Strategaeth hon ar waith yn cyfrannu'n uniongyrchol at amcan cyntaf **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16**, sy'n ymwneud â gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, ac sy'n gallu cyfrannu at amcanion eraill yn uniongyrchol. Mae'r drafodaeth ar yr amcanion drafft posibl ar gyfer **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020** yn golygu cysylltiadau agosach, gan gynnwys amcan sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ac amcan newydd yn ymwneud â lleihau tlodi a lliniaru effaith tlodi.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod cysylltiad agos rhwng allgáu digidol ac allgáu ariannol. Mae mwy a mwy o weithgareddau **cynhwysiant ariannol** yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau cynhwysiant digidol gan fod adnoddau rheoli cyllideb ar-lein fel 'Money Made Clear Wales' (sydd dan ofal Canolfan Gydweithredol Cymru) a defnyddio gwefannau cymharu prisiau yn ffordd wych o ddangos manteision bod ar-lein i bobl sy'n dechrau defnyddio'r rhyngwrdd. Hefyd, yn aml iawn, dim ond ar-lein mae'r cynhyrchion ariannol gorau ar gael, gyda chyfraddau uwch ar gyfer cynilwyr a chyfraddau is ar gyfer benthyccwyr. Felly nid yw'n bosibl cael eich cynnwys yn ariannol yng ngwir ystyr y gair os nad yw holl gynhyrchion y farchnad ar gael i chi.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Cyhoeddywd **Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru** ym Mawrth 2016. Mae'r Cynllun Sicrhau Cynhwysiant Digidol yn nodi ein hamcanion i leihau ymhellach lefelau allgáu digidol ymhlith oedolion Cymru.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae darparwyr cyngor Dielw wedi wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen o ganlyniad i leihad yn eu cyllid ledled Cymru wrth i'r galw am eu gwasanaethau nhw, yn ogystal â gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gynyddu.

Roedd **Adolygiad o Wasanaethau Cyngori**⁵ Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013 yn edrych ar sut y gellid datblygu rhwydwaith cyngori cryfach yng Nghymru i sicrhau gwell cydlynid a chydweithio rhwng gwasanaethau. Roedd yn edrych yn benodol ar gyngor Lles Cymdeithasol, gan mai cyngor ar fudd-daliadau lles, dyled, tai a chyflogaeth yw'r meysydd â'r galw mwyaf am wasanaethau cyngori am ddim.

Roedd yr Adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion ar dair thema:

- ariannu, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau cyngori;
- datblygu rhwydweithiau cyngori;
- datblygu safonau cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth a chyngor.

Roedd yr Adolygiad yn galw ar gyllidwyr i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o faterion a chanlyniadau ac ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn cydlynu ei holl weithgarwch yn ymwneud â gwybodaeth, cyngor neu arweiniad er mwyn datblygu dull gweithredu mwy cydlynol. Roedd yr Adolygiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i ariannu cyngor di-dâl ac annibynnol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy fuddsoddi mwy na £4 miliwn mewn rhagor o wasanaethau cyngori rheng flaen ym mlynnyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16.

Mae'r prosiect Cyngor Da, Byw'n Well wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Cyngor ar Bopeth Cymru ers mis Ebrill 2012. Rhaglen i gynyddu incwm cymaint â phosibl yw Cyngor Da, Byw'n Well, a'i nod yw lleihau tlodi. Mae'r rhaglen ar waith ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn 2014/15, aeth cyngorwyr Cyngor Da, Byw'n Well ati i helpu dros 18,700 o bobl ledled Cymru gyda dros 40,000 o broblemau. Nodwyd bod cyfanswm y budd/enillion ariannol i bobl a chymunedau yn sgil y prosiect y llynedd yn £19.4 miliwn.

Yn ogystal â lleihau tlodi, mae manteisio ar eu hawliau yn gallu lleihau effaith negyddol gysylltiedig tlodi ar iechyd pobl hefyd. Mae economïau lleol ar eu hennill hefyd, wrth i bobl wario arian yn eu milltir sgwâr.

⁵ Adolygiad o Wasanaethau Cyngori <http://gov.wales/statistics-and-research/advice-services-review/?skip=1&lang=cy>

Sefydlwyd Rhwydwaith Cyngor Cymru yn 2015, gan ddwyn ynghyd rhanddeiliaid allweddol fel cyllidwyr, darparwyr cyngor, sefydliadau ymbarél a phartneriaid eraill i drafod y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cynghori cenedlaethol a lleol i sicrhau bod unigolion a theuluoedd yn gallu cael gwasanaethau cyngor a chymorth da a chywir.

Ymgynghorwyd â Rhwydwaith Cyngor Cymru wrth ddatblygu un o themâu craidd y Strategaeth hon, sef mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled.

Roedd yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori yn cydnabod bod diffyg cysondeb yn y broses sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau cynghori a gwybodaeth, a bod y broses o fesur canlyniadau yn rhwystro cydweithredu ymhellach. Roedd yr Adolygiad yn argymhell Fframwaith o Safonau ar gyfer Cyngor a Gwybodaeth yn seiliedig ar nodau a safonau ansawdd sy'n bodoli'n barod. Roedd yn argymhell hefyd y dylid datblygu cofrestr genedlaethol o ddarparwyr cyngor sy'n bodloni'r Fframwaith Safonau. Mae'r argymhellion hyn yn cael rhagor o sylw yn ein thema cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroi i fynd i'r afael ag effeithiau cyfredol tlodi ac atal tlodi yn y dyfodol. Mae'n mynd ati i **drechu tlodi** drwy flaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf a diogelu'r bobl sydd fwyaf tebygol o ddioddef tlodi ac allgáu. Mae'r ffocws ar dri cham gweithredu: atal tlodi, helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi.

Cymunedau yn Gyntaf yw ein rhaglen sy'n canolbwyntio ar drechu tlodi yn y gymuned. Mae'r rhaglen yn helpu'r bobl sydd dan yr anfantais fwyaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru i wneud y cymunedau hyn yn fwy llewyrchus, yn fwy iach, yn fwy medrus ac yn fwy gwybodus. Mae'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig amryw o brosiectau a gweithgareddau. Mae llawer o'r prosiectau yn effeithio ar gynhwysiant ariannol drwy ddarparu gwasanaethau allgymorth ar gyfer cyngor ar arian a dyled, hyfforddiant ar faterion ariannol a dyled a thrwy eu cysylltiadau ag Undebau Credyd ac asiantaethau cynghori lleol.

Mae helpu pobl i gael gwaith yn hollbwysig i godi pobl allan o dlodi. Mae ystod eang o raglenni, gan gynnwys **Cymunedau am Waith** ac **Esgyn** eisoes yn weithgar yng Nghymru: yn cynorthwyo ac yn gweithio gyda phobl i'w gwneud yn fwy cyflogadwy a mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth fel y gallant gael swyddi cynaliadwy sy'n talu'n dda.

Rydym wedi ymrwymo i'r nod o ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae tlodi plant yng Nghymru yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel, gydag oddeutu un ym mhob tri phlentyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn cynnwys amcanion newydd ar gyfer gwella canlyniadau plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel. Un o'r amcanion newydd hyn yw "Helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd trwy gyngor ynghylch dyledion a chynghori ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles". Mae'r Strategaeth Cynhwysiant Digidol Ddiwygiedig hon yn rhan o'n hymateb i gyflawni'r amcan strategol newydd hon.

Mae helpu rhieni i gynyddu eu hincwm yn rhan allweddol o drechu tlodi plant. Gall mentrau cynhwysiant ariannol a digidol helpu i leihau effaith tlodi, drwy helpu teuluoedd a rhoi iddynt y sgiliau a'r adnoddau i allu gwneud y gorau o'u hincwm. Mae mynd i'r afael â'r premiwm tlodi yn arbennig o bwysig, gan fod cael eu hallgáu o wasanaethau prif ffrwd yn aml yn golygu bod teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn talu mwy am wasanaethau bob dydd fel tanwydd, bwyd, tai a chredyd. Mae mynediad at wasanaethau ariannol a gwasanaethau cymorth fforddiadwy sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor ar faterion sy'n ymwneud â dyledion, diwygio lles, mynediad at fudd-daliadau, tai, rheoli arian, cynyddu incwm a gwahaniaethu yn hanfodol. Felly hefyd mae helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gynyddu eu gallu ariannol.

Mae'r amcan strategol newydd yn y Strategaeth Tlodi Plant yn arbennig o bwysig hefyd i helpu'r bobl sydd fwyaf tebygol o fod yn byw ar aelwydydd incwm isel, sy'n cynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig penodol. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu bod teuluoedd â phlant anabl a/neu rieni anabl yn aml yn wynebu costau byw uwch ac mae'r diwygiadau lles diweddar wedi effeithio ar yr aelwydydd hyn yn fwy nag eraill⁶.

Yn ogystal â helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth Tlodi Plant, bydd y Strategaeth hon yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant mewn perthynas â nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn 2013-23** yn nodi pwysigrwydd cefnogi ac annog pobl hŷn i baratoi'n briodol ar gyfer cyfnod hwyrach eu bywydau, a sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth a'r cyngor priodol ar eu paratodau ariannol posibl.

Gall tlodi tanwydd a dyled tanwydd fod yn broblem fawr i lawer o bobl o bob oed, pwy bynnag sy'n byw ar yr aelwyd, beth bynnag yw eu statws cyflogaeth a ble bynnag y maent yn byw. Mae tlodi tanwydd yn cael ei achosi gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys incwm isel aelwydydd, prisiau ynni drud a gwresogi ac inswleiddio gwael yn y cartref. Yn 2012, amcangyfrifwyd bod bron i 1 o bob 3 aelwyd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi tanwydd y tu hwnt i gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, felly byddwn yn ceisio dylanwadu ar y rhain ac yn parhau i weithio yn y meysydd lle y gallwn ni wneud gwahaniaeth.

Trwy ein rhaglen **Cartrefi Clyd**, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni cartrefi mewn cymunedau ac aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn cynnwys y cynlluniau **Nest** ac **Arbed**, a helpu aelwydydd incwm isel i gael ystod o gyngor a chymorth am ddim fel y gallan nhw leihau eu biliau ynni. Mae'r cyngor a chymorth yn cynnwys atgyfeirio pobl i gael Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau, cyngor ar reoli arian ac ad-daliad o'r Disgownt Cartrefi Clyd, ymhlith pethau eraill, yn ogystal ag atgyfeirio aelwydydd cymwys i gael gwelliannau ynni cartref am ddim. Yn arbennig, mae gan gynllun Nest Reolwyr Datblygu Partneriaid, ac mae eu gwaith wedi cynnwys meithrin cysylltiadau a llwybrau atgyfeirio gyda sefydliadau partner.

⁶ Driving down the extra costs disabled people face, Extra Costs Commission, Mehefin 2015

Mae ein rhaglen **Cefnogi Pobl** yn rhoi cymorth yn ymwneud â thai i helpu pobl agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl. Pobl hŷn yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael cymorth, ond mae'r rhaglen yn helpu aelwydydd sy'n ffoi rhag trais domestig, aelwydydd sydd dan fygythiad o fod, neu newydd fod, yn ddigartref am gyfnod, a phobl ag anghenion iechydd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau neu anabledd dysgu.

Bydd **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** yn rhoi modd o wella sicrwydd deiliadaeth i bobl yng Nghymru, yn ogystal â gwella'r hawl i unioni cam. Gweithredu **Deddf Tai (Cymru) 2014** yw'r diwygiad mwyaf radical i ddeddfwriaeth ddigartrefedd mewn dros ddeng mlynedd ar hugain ac mae wedi gwella'n fawr yr amrywiaeth o help y mae pobl sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref neu sydd yn ddigartref yn ei gael, gan gynnwys cymorth gyda dyledion yn ymwneud â thai a chymorth i gael tai fforddiadwy.

Cafodd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Y Ddeddf yw'r sail fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Ddeddf yn trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu rhoi ar waith, gan hybu annibyniaeth pobl i roi llais cryfach iddynt a mwy o reolaeth dros eu lles. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwyslais cryf ar atal ac mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth o fewn y model newydd o ofal cymdeithasol. Bydd hwn yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2016 a bydd yn cynnwys datblygu porth ar-lein yn ymwneud â gofal a chymorth.

Ein gweledigaeth yw darparu cwricwlwm a fframwaith asesu cydlynol ac integredig ar gyfer ysgolion, sy'n codi safonau cyrhaeddiad ac yn ehangu addysg. Mae datblygu a darparu cwricwlwm yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn meysydd sy'n cynnwys addysg ariannol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu **Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes** ar 22 Hydref 2015, gan nodi sut y bydd argymhellion **Dyfodol Llwyddiannus** yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y gwaith o lunio a datblygu'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys **Meysydd Dysgu a Phrofiad**, yn cael ei gwblhau drwy'r **Rhwydwaith o Ysgolion Arloesi**.

Bydd y **Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg** yn cefnogi ac yn galluogi ein hathrawon a staff cynorthwyol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu eu hymarfer.

Gweithio gyda'n Gilydd

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda sefydliadau partner i fynd i'r afael ag allgáu ariannol a cheisio sicrhau cymdeithas fwy cynhwysol yn ariannol yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hyn.

Rydym yn sylweddoli bod rhai o'r ymrwymadau yn y Strategaeth hon yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn credu ei bod yn bwysig cynnwys ymrwymadau o'r fath yn y Strategaeth hon, a byddwn yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu ar lefel y DU er mwyn cyflawni ein hamcanion, boed hyn gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â diwygio lles neu gyda sefydliadau ariannol mewn perthynas â mynediad at wasanaethau neu fforddiadwyedd.

Mae Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys aelodau o sefydliadau partner ac amryw o adrannau Llywodraeth Cymru, wedi cynorthwyo i ddatblygu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl y Grŵp yn 2016. Bydd y grŵp ar ei newydd wedd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflenwi a bydd yn gyfrifol am sicrhau cynnydd wrth wireddu ymrwymadau'r Strategaeth.

Yn yr un modd ag y mae llawer o strategaethau a rhaglenni Llywodraeth Cymru eisoes yn cyfrannu at gynhwysiant ariannol, yn enwedig mewn perthynas â chynhwysiant digidol, trechu tlodi a diwygio addysg, mae gan lawer o sefydliadau partner eu rhaglenni eu hunain i hybu cynhwysiant ariannol hefyd. Er enghraifft, Undebau Credyd a swyddfeydd Cyngor ar Bopeth Lleol yn gweithio gydag ysgolion, a Chymdeithasau Tai yn hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy. Hefyd, gall pobl fynd ati i'w helpu eu hunain mewn sawl ffordd os ydym wedi eu cynorthwyo i feithrin gallu a magu hyder ariannol, fel mynd ati i chwilio am ffyrdd i fod yn gall gydag arian a chwilio am y prisiau gorau neu ostyngiadau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

Bydd strategaethau a mentrau eraill sydd â chysylltiadau â chynhwysiant ariannol yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi yn ystod oes y Strategaeth hon, a byddwn yn sicrhau bod cymaint o gysondeb ac aliniad â phosibl drwy roi ymrwymadau'r Strategaeth hon ar waith. Mae'r canlynol yn arbennig o berthnasol:

- Strategaeth Gwasanaethau Cyngori i Gymru – i'w pharatoi gan Lywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yn ystod 2016; a
- Chynllun Cydraddoldeb Strategol – i'w ddatblygu gan Lywodraeth Cymru, gydag amcanion lleol yn cael eu cytuno yn ystod Gwanwyn 2016 a'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2016.

Mae llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gweithio i hybu cynhwysiant ariannol a gallu ariannol. Cyfeirir at rai o'n partneriaid allweddol yma, ac amlygir eu harferion da yn yr astudiaethau achos a ddefnyddir gydol y Strategaeth hon. Mae'n hanfodol bod arferion da – naill ai yng Nghymru ei hun neu mewn llefydd eraill – yn cael eu rhannu â phartneriaid allweddol. Byddwn yn annog grwpiau perthnasol, gan gynnwys y tri Fforwm Gallu Ariannol, i sicrhau bod hyn yn parhau. Hefyd, byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant, y Comisiynydd

Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu'r Cynllun Cyflenwi sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth hon.

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Gwasanaeth annibynnol a sefydlwyd gan y llywodraeth yw'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS). Mae'n helpu pobl i reoli eu harian drwy gynnig gwasanaeth cynghori di-dâl a diduedd. Y sefydliad hwn yw corff statudol y DU ar gyfer gwella dealltwriaeth a gwybodaeth pobl ynglŷn â materion ariannol a'u gallu i reoli eu sefyllfa ariannol. Mae MAS yn gweithio gyda, yn cefnogi ac yn cynnig arbenigedd i sefydliadau eraill yn y diwydiant gwasanaethau ariannol, y trydydd sector, ledled y llywodraeth a thu hwnt.

Roedd adroddiad y Comisiwn Cynhwysiant Ariannol ym mis Mawrth 2015 yn argymhell⁷ datblygu gwerthusiad cadarn yn seiliedig ar ganlyniadau o sut i wella gallu ariannol, gydag adnoddau i alluogi hynny, wedi'i ddatblygu ar y cyd â'r diwydiant, llywodraeth, grwpiau defnyddwyr a chymdeithas sifil, ac wedi'i gydlyn gan Wasanaeth Cynghori Ariannol diwygiedig.

Cafodd Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU, wedi'i chydlyn gan MAS, ei chyhoeddi ar 28 Hydref 2015. Fel rhan o'r broses ddatblygu, mae MAS wedi llunio Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer Cymru, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2015. Ar ôl ymgynghori a Fforwm Cymru MAS a Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru, roedd cydsyniad cyffredinol i gynnwys elfennau allweddol o'r Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer Cymru yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon ac i ystyried y meysydd a'r camau gweithredu a ddylai gael blaenoriaeth wrth ddatblygu Cynllun Cyflenwi i gyd-fynd â'r Strategaeth hon. Er bod gallu ariannol, sy'n fesur ataliol, a chyngor ar ddyled, mesur ymatebol, yn cael sylw mewn dwy bennod wahanol, mae'n anochel y bydd y ddwy elfen ynghlwm wrth ei gilydd yn ein Cynllun Cyflenwi.

Darparu Cyngor

Un o'r ffyrdd pwysig y gall pob sefydliad partner wneud ei ran i hybu cynhwysiant ariannol yw cynorthwyo ac annog eu staff rheng flaen i gyfeirio pobl at wybodaeth a chyngor ariannol pan fyddan nhw'n gweld bod eu cleientiaid angen gwybodaeth neu gyngor i newid eu sefyllfa ariannol. Os yw'n bosibl, mae **atgyfeiriad cynnes** rhwng partneriaid sy'n ymddiried yn ei gilydd yn debygol o fod yn fwy effeithiol na dim ond sôn am y gwasanaethau sydd ar gael, yn enwedig yn achos defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed. Mae cyfoeth o adnoddau sydd â'u hansawdd wedi'i sicrhau ar gyfer llythrennedd ariannol ar gael ar-lein a bydd Safonau Ansawdd Gwasanaethau Cynghori Cenedlaethol a mapio darparwyr cyngor yn rhoi cronfa ddata i'w defnyddio i ddod o hyd i gyngor ariannol lleol, neu ddarparwyr ar-lein neu dros y ffôn.

Mae llawer o ddarparwyr cyngor gwahanol yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ar hyn o bryd, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, Advice

⁷ <http://www.financialinclusioncommission.org.uk/report>, argymhelliad 22

UK ac eraill, gan gynnwys darparwyr annibynnol. Bydd ymarfer mapio'n cael ei gynnal cyn hir i geisio mapio'r holl wasanaethau sydd ar gael i bobl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector mewn sawl cyfrwng gwahanol, gan gynnwys wyneb yn wyneb, ar-lein a dros y ffôn. Bydd canlyniadau'r gwaith mapio hwn yn helpu pobl i ddod o hyd i'r help maent ei angen gydag ystod eang o broblemau gan gynnwys cyngor ariannol rhagweithiol a chymorth gyda dyledion.

Gall defnyddwyr gwasanaethau elwa ar y ffaith fod y sawl sy'n darparu cyngor yn gallu cysylltu ei gyngor ar ddyledion, cynyddu incwm, gallu ariannol, arian a materion ehangach. Bydd cleientiaid yn aml yn symud o gyngor cyffredinol (sydd gan amlaf yn cael ei ariannu gan gyllid craidd ac sy'n fwy ymatebol i angen lleol) i gael cyngor mwy arbenigol neu ataliol ar yr un pynciau neu ar bynciau gwahanol. Er enghraifft, yn aml, wrth wneud gwaith gallu ariannol gyda chleientiaid, bydd dyledion yn dod i'r amlwg. Yn yr un modd, wrth gynghori cleientiaid sydd wedi gofyn am gyngor ar ddyled, mae'n gwneud synnwyr asesu hawliau i fudd-daliadau a/neu anghenion gallu ariannol er mwyn eu helpu i reoli eu dyled a'u helpu i osgoi mynd i ddyled eto yn y dyfodol. Felly mae pob un ohonynt yn elfen hollbwysig o becyn cyfannol o gyngor a chymorth.

Awdurdodau Lleol

Gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad pwysig at yr agenda cynhwysiant ariannol drwy eu cysylltiad dyddiol â phobl yn eu hardaloedd sydd wedi'u hallgáu'n ariannol o bosibl, ac fel y cyllidwyr sy'n ariannu ac yn darparu gwasanaethau cynhwysiant ariannol. Mae ganddynt rôl bwysig hefyd yn darparu addysg ariannol yn eu hysgolion i sicrhau bod gan bobl ifanc ddealltwriaeth dda o faterion cyllid personol cyn iddynt adael yr ysgol.

Yn sgil Deddf Diwygio Lles 2007, 2012 a Bil Diwygio Lles a Gwaith 2015/16, gwelwyd newidiadau sylweddol i les miloedd o bobl sy'n cael budd-daliadau yng Nghymru. Awdurdodau lleol sydd wedi bod yn gyfrifol am weithredu a rheoli llawer o'r newidiadau hyn. Mae gan bob awdurdod lleol Swyddog Arweiniol Diwygio Lles i sicrhau eu bod yn deall anghenion eu trigolion ac i geisio sicrhau nad oes unrhyw un yn mynd heb gymorth neu arweiniad yn ystod y cyfnod hwn o newid nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen.

Rhaid i bob awdurdod lleol gynnal ymarfer Mapio Gwasanaethau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn gallu mesur faint o gymorth sydd ar gael yn ei ardal ar gyfer y bobl hynny fydd yn hawlio Credyd Cynhwysol. Y prif rwystrau fydd yn wynebu cwsmeriaid yw sut mae defnyddio gwasanaeth sy'n un digidol yn bennaf a'r prinder sgiliau i allu rheoli'n llwyddiannus 'daliad' budd-dal uniongyrchol misol.

Yn ogystal â chefnogi pobl drwy'r newidiadau diwygio lles, bydd Awdurdodau Lleol yn cynnig gwybodaeth a chynghor i drigolion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) hefyd.

Undebau Credyd

Mae Undebau Credyd yn bartneriaid allweddol yn y gwaith o roi'r Strategaeth hon ar waith, ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Ar

hyn o bryd, mae 20 Undeb Credyd ledled Cymru yn darparu gwasanaethau i dros 78,000 o gynilwyr sy'n oedolion ac yn bobl ifanc. Mae llawer o Undebau Credyd yn gwneud gwaith allgymorth cymunedol mewn ysgolion, carchardai a chanolfannau gwaith er mwyn hyrwyddo'r agenda hon.

Mae Undebau Credyd yn bodoli er mwyn gwasanaethu eu haelodau yn hytrach na gwneud cymaint o elw â phosibl ar gyfer cyfranddalwyr trydydd parti, ac maent yn cynnig benthyciadau mwy fforddiadwy i bawb a ffordd hwylus o gynilo. Gall Undebau Credyd wneud cyfraniad pwysig iawn at gynorthwyo pobl i reoli eu harian, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfrifon cyllidebu a chyfrifon rhent sy'n ceisio cynorthwyo pobl sydd angen cymorth i gyllidebu.

Maent yn gwneud gwaith pwysig iawn yn cefnogi pawb, gan gynnig benthyciadau a chynhyrchion cynilo fforddiadwy i'w holl aelodau, sy'n amrywio o bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i'r rhai sy'n ennill incwm uwch.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd yr Undebau Credyd yng Nghymru'r strategaeth genedlaethol gyntaf ar gyfer Undebau Credyd yng Nghymru. Eu nod yw llunio datblygiad a gweledigaeth Undebau Credyd ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cyfres o argymhellion ymarferol.

Swyddfeydd Post

Ym mis Ionawr 2015, roedd 997 swyddfa'r post yng Nghymru - 286 mewn ardaloedd trefol a 711 yn gwasanaethu cymunedau gwledig. Yn draddodiadol, mae swyddfeydd post wedi bod yn rhan hollbwysig o gymunedau lleol, yn enwedig yng nghefn gwlad, ac maent yn ffordd o gael at arian a gwasanaethau ariannol. Mae 95% o holl gwsmeriaid banciau'r DU yn gallu cael mynediad at eu cyfrif drwy Swyddfa'r Post⁸. Hefyd, mae modd defnyddio Cyfrif Carden Swyddfa'r Post i gael budd-daliadau.

Mae swyddfeydd post yn newid i ateb gofynion cwsmeriaid ac yn tyfu eu busnesau i fod yn fwy cynaliadwy'n fasnachol. Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi datblygu Rhaglen Drawsnewid erbyn 2020, a fydd yn gweld mwy o gymorth yn cael ei roi i ganghennau cymunedol hanfodol. Efallai mai Swyddfa'r Post ei hun fydd yn darparu'r rhain, neu drwy ddarparu lleoliad lleol ar gyfer gwasanaethau eraill, er enghraifft, lle mae banciau wedi cau canghennau lleol ond yn cynnig gwasanaeth mewn swyddfa'r post leol.

Mae Swyddfa'r Post wrthi'n hyrwyddo cynllun Get Connected i helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddi lleol i'w helpu i fynd ar-lein, drwy gronfa ddata o ddarparwyr y gellir ei chwilio yn ôl cod post. Gellid edrych ar ddichonoldeb darparu system debyg ar gyfer canfod darparwyr cyngor lleol, yn seiliedig ar waith mapio data cyfredol sydd wedi'i wneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath, sy'n cael ei gynllunio gan y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol.

Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwy'r Cenedlaethol (NOMS) yng Nghymru

⁸ Gwybodaeth gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Gallai gwella gallu ariannol ymhlith aelodau'r grŵp agored i niwed hwn fynd i'r afael â lefelau aildroseddu. Mae Swyddfa Archwilio Cymru (2010) wedi amcangyfrif y gallai cost troseddau cofnodedig sy'n cael eu cyflawni gan gyn-garcharorion yng Nghymru a Lloegr fod cymaint â £13 biliwn y flwyddyn. Mae Cyllid, Budd-daliadau a Dyled wedi'u nodi yn Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru Gyfan 2014-16 fel un o'r naw llwybr allweddol i allu cefnu ar droseddu.

Mae carcharorion, cyn-droseddwyr a theuluoedd carcharorion yn benodol yn agored i allgáu ariannol. Mae problemau cyffredin sy'n wynebu pobl sy'n gadael y carchar yn cynnwys trafferthion yn agor cyfrif banc, diffyg sgiliau hanfodol, methu â chael cynhyrchion prif ffrwd fel yswiriant, dibyniaeth a cham-drin ariannol, bwlch cyllid, diffyg ymwybyddiaeth a dyledion sylweddol. Hwyrach y bydd troseddwyr angen cyngor ar reoli arian a dyledion er mwyn gallu cadw'u llety, ac mae hyn yn cael ei weld fel amod angenrheidiol ar gyfer lleihau aildroseddu.

Rhaid i garcharorion sy'n gallu cael Lwfans Ceisio Gwaith ymuno â Rhaglen Waith DWP y diwrnod y cânt eu rhyddhau o'r carchar. Mae NOMS yng Nghymru yn galluogi ac yn annog staff y Rhaglen Waith i weithio gyda throseddwyr, gan gynnwys hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i alluogi hawliau uwch am Gredyd Cynhwysol wrth iddo gael ei gyflwyno ledled Cymru.

Mae Cynghorwyr Cyflogaeth a Budd-daliadau'r DWP mewn carchardai yn trafod ceisiadau am fudd-daliadau gyda charcharorion sy'n gwirfoddoli i wneud hynny gan fod pobl sy'n gadael carchar yn treulio mwy o amser ar fudd-daliadau na hawlwyf newydd eraill. Felly mae gweithgareddau prosesu budd-daliadau yn cael eu gwneud cyn iddynt gael eu rhyddhau er mwyn cyflwyno unrhyw geisiadau. Pan gaiff troseddwyr eu rhyddhau, mae Rheolwyr Troseddwyr yn gallu cynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer unrhyw broblemau'n ymwneud â chyllid, budd-daliadau neu ddyledion drwy gyfeirio pobl at asiantaethau perthnasol neu drwy gwblhau Llyfr Gwaith Cyllid Gweithgarwch Adsefydlu gyda'r nod o helpu'r unigolyn i gydnabod unrhyw broblemau a rhoi'r sgiliau i'w alluogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Ar hyn o bryd mae pob carcharor yn cael asesiad cychwynnol o'i anghenion pan mae'n cyrraedd y carchar. Gall unrhyw faterion ariannol brys gael sylw gan Swyddogion Adsefydlu y Cwmni Adsefydlu Cymunedol ar yr adeg hon. Un enghraifft bosibl yw ildio tenantiaethau i osgoi dyledion rhent. Mae carcharorion yn cael eu cyfeirio at unrhyw asiantaethau cymorth yn y carchar hefyd er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion h.y. Gambling Anonymous, Cyngor ar Bopeth. Ddeuddeg wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau, cynhelir cynllun adolygu gyda phob carcharor i asesu unrhyw anghenion adsefydlu, a chynigir rhaglenni cymorth modiwlaid, gan gynnwys modiwl ar Gyllid, Budd-daliadau a Dyled. Amcanion y modiwl hwn yw:

- cynnig gwybodaeth am gynllunio, cyngor a chymorth ariannol;
- datblygu dealltwriaeth o sut mae rheoli cyllid yn effeithiol oddi mewn a thu hwnt i ffiniau'r carchar;
- dangos sut i gael gafael ar fudd-daliadau cyn bod carcharorion yn cael eu rhyddhau;
- eu helpu i integreiddio'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned.

Mae carcharorion yng Nghymru yn gallu agor a rheoli cyfrif banc neu Undeb Credyd tra'u bod dan glo drwy drefniadau lleol fel Banc Barclays neu Undeb Credyd Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr yng Ngharchar EM Parc, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro yng Ngharchar EM Caerdydd ac Undeb Credyd LASA yng Ngharchar EM Abertawe. Mae gan yr Undebau Credyd drefniadau ar waith hefyd i roi mynediad i aelodau presennol sydd mewn carchardai sy'n cael eu gwasanaethau gan un o'r Undebau Credyd eraill.

Cymdeithasau Tai

Mae Cymdeithasau Tai yng Nghymru yn cartrefu dros 160,000 o denantiaid lle y gall allgáu ariannol, allgáu cymdeithasol a lefelau isel o allu ariannol fod yn bresennol ochr yn ochr â ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed.

Mae cymdeithasau tai yn gwneud gwaith ataliol drwy eu rhaglenni a'u mentrau addysg a chynhwysiant ariannol eu hunain. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, Undebau Credyd, Moneyline Cymru ac asiantaethau cyngor. Gall y cymorth hwn ddechrau gyda gwaith cyn-tenantiaeth cynnar fel y prosiect MyPad, cynorthwyo gyda chynaliadwyedd tenantiaethau drwy brosiectau fel Pendinas a helpu pobl sydd am fod yn berchen ar dŷ drwy gynlluniau Cyd-berchenogaeth.

Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru

Mae benthycwyr arian anghyfreithlon (benthycwyr arian didrwydded) yn targedu'r bobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol fwyaf ac sy'n agored i niwed mewn ffyrdd eraill yng Nghymru. Mae Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru yn dibynnu ar sefydliadau partner gan gynnwys awdurdodau lleol, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, NOMS, cymdeithasau tai, y Gronfa Cymorth Dewisol ac asiantaethau cynghori i ganfod a rhoi gwybod i'r awdurdodau am fenthycwyr arian didrwydded a hefyd i helpu'r sawl a dargedir ganddynt.

Sylweddolodd un o gynghorwyr Cyngor ar Bopeth fod un o'i chleientiaid wedi ei dargedu gan fenthyciwr arian didrwydded. Cytunodd y cleient y dylid cyfeirio'r mater i'r Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon, a ymchwiliodd i'r achos. O ganlyniad, cafodd y benthyciwr arian didrwydded ei erlyn a'i garcharu.

Cafodd y cleient a'i deulu eu cefnogi gydol y broses gan Gyngor ar Bopeth a'r Uned. Meddai: "Allen ni ddim fod wedi parhau fel oedden ni – mae ein bywydau wedi newid yn llwyr".

Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau

Mae'n debygol fod gan lawer o bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau lefelau isel o allu ariannol ac maent mewn perygl o ddioddef allgáu cymdeithasol a digartrefedd. Dylai Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyngor ariannol perthnasol a darparwyr camddefnyddio sylweddau yn eu hardal i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Bydd canlyniadau ymgynghoriad 2016 ar gynllun cyflenwi tair blynedd terfynol strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yn cael eu hystyried wrth gynllunio i roi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon ar waith.

Themâu Craidd

Er mwyn i bobl allu rheoli eu harian yn y ffordd fwyaf priodol ar gyfer eu hamgylchiadau rhaid iddynt gael:

- mynediad at gredyd a gwasanaethau ariannol fforddiadwy;
- mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled;
- dealltwriaeth a gallu ariannol.

Mae'r themâu craidd hyn yn cael sylw yn adrannau nesaf y Strategaeth hon, ond ni ddylid eu hystyried ar wahân gan fod cysylltiadau clir rhyngddynt a bydd elfennau o bob thema yn berthnasol, ac yn angenrheidiol, i bawb. Hefyd, gall y themâu olygu pethau gwahanol i bobl wahanol.

Mae dwy thema yn cyfeirio at "fynediad". Byddwn yn ystyried mynediad mewn perthynas â'r materion canlynol:

- darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyngor wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein;
- darparu gwybodaeth ac adnoddau gallu ariannol ar-lein neu fel copi caled;
- sicrhau bod gwasanaethau ariannol neu gyngor lleol ar gael ledled Cymru;
- darparu gwasanaethau ariannol a chynghor mewn lleoliadau neu fformatau addas ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Mae pawb yn ymdrin ag arian a materion ariannol yn rheolaidd drwy gydol eu bywydau. I rai, sydd heb unrhyw ofidiau ariannol efallai, y flaenoriaeth yw gwneud y defnydd gorau o'u harian – yn awr ac yn y dyfodol. I eraill, mae'n bosibl mai'r flaenoriaeth yw dysgu cyllidebu fel y gallant reoli eu harian o ddydd i ddydd neu reoli eu dyled a gwella'u statws credyd.

Beth bynnag yw amgylchiadau rhywun, mae pawb yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng yr angen i reoli eu harian o ddydd i ddydd, i gynllunio ymlaen at gostau'r dyfodol ac i ystyried ffyrdd o ymdopi â digwyddiadau annisgwyl.

Yn dibynnu ar sefyllfa ariannol rhywun, gall y rhain olygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Er enghraifft, i rywun sydd ar incwm isel heb fawr ddim neu ddim cynilion, gall cynllunio ymlaen llaw olygu meddwl am reoli cost gwisg ysgol newydd. I rywun arall sydd â mwy o incwm gwario, gall olygu cynilo mewn pensiwn ar gyfer ei ymddeoliad.

Er bod modd awgrymu rhai enghreifftiau o flaenoriaethau pobl yn dibynnu ar faint o arian sydd ganddynt, cyfrifoldeb unigolion neu aelwydydd fydd cytuno ar eu blaenoriaethau penodol. Rhoddir y tabl isod fel enghraifft bosibl o flaenoriaethau pobl gan ddibynnu ar eu profiad o gynhwysiant ariannol, ac ni fwriedir iddo gynnwys popeth. Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pobl yn newid dros amser ac y gall unigolion ddewis blaenoriaethau gwario gwahanol iawn, waeth faint bynnag o incwm gwario sydd ganddynt ac a ydynt wedi eu cynnwys neu eu hallgáu'n ariannol o gymharu ag eraill.

	Pethau y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl ddelio â nhw i ryw raddau, waeth beth fo'u sefyllfa ariannol	Pethau y bydd pobl sydd wedi'u cynnwys fwy yn ariannol yn meddwl amdanynt / yn eu gwneud	Pethau a allai fod yn anoddach i'w rheoli ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu fwy yn ariannol
Bywyd bob dydd – rheoli arian yn dda o ddydd i ddydd	▪ Cynyddu incwm cymaint â phosibl ▪ Lleihau gwariant ▪ Talu'r biliau ▪ Rhent / morgais ▪ Yswiriant / treth car ▪ Trwydded deledu	▪ Yswiriant – iechyd, bywyd, salwch critigol, cartref/cynnwys, ac ati ▪ Ffioedd ysgol ▪ Aelodaeth o gampfa / clwb chwaraeon / clwb cymdeithasol ▪ Gofal iechyd preifat ▪ Cynnal a chadw'r cartref	▪ Cyllidebu ▪ Rhent/cyfrif pot jam ▪ Yswiriant cartref / cynnwys ▪ Gofal plant ▪ Teithiau ysgol / clybiau ar ôl ysgol ▪ Gweithgareddau cymdeithasol ▪ Costau ychwanegol am driniaeth y GIG (e.e. deintyddol, optegol)
Cynllunio ymlaen – paratoi ar gyfer a rheoli digwyddiadau bywyd	▪ Cynilion ▪ Benthyciadau ▪ Digwyddiadau teuluol (genedigaethau, priodasau, ac ati)	▪ Pensiynau ▪ Cynlluniau angladd ac ewyllysiau ▪ Gofal mewn henaint ▪ Prynu tŷ / gwelliannau i'r cartref ▪ Gwyliau	▪ Gwisg ysgol ▪ Digwyddiadau tymhorol, gan gynnwys y Nadolig, y Pasg, penblwyddi, gwyliau ysgol ac ati. ▪ Gwyliau / gwibdeithiau
Digwyddiadau annisgwyl – delio ag anawsterau ariannol (posibl)	▪ Profedigaeth ▪ Ysgariad ▪ Salwch ▪ Dileu swydd ▪ Dechrau teulu	▪ Biliau treth ▪ Colledion heb eu hyswirio	▪ Cyfarpar yn torri ▪ Cerbyd yn torri i lawr

Mynediad at Gredyd a Gwasanaethau Ariannol Fforddiadwy

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae pawb yn gallu cael mynediad hawdd at amrywiaeth o wasanaethau a chynhyrchion ariannol i ddiwallu eu hanghenion unigol, yn ogystal â gallu cael mynediad hawdd at eu harian nhw'u hunain, naill ai trwy beiriant neu dros y cownter.

Rhaid i bawb allu cael gafael ar arian er mwyn byw o ddydd i ddydd. Mae gan rai pobl lawer o ddewis wrth reoli eu harian a dewis eu gwasanaethau ariannol. Mae gan bobl eraill lai o ddewis. Hefyd, mae rhai pobl yn dewis byw ar gyllideb arian parod oherwydd bod hynny'n rhoi rheolaeth lwyr iddynt dros eu harian fel na fyddant byth yn mynd i ddyled, er eu bod yn gwybod eu bod yn gallu talu mwy am nwyddau a gwasanaethau o ganlyniad.

Penderfyniad yr unigolyn yw sut mae'n dewis rheoli ei arian. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau bod pobl yn ymwybodol bod ganddynt ddewisiadau a'u bod yn ymwybodol o ffyrdd eraill o reoli eu harian hyd yn oed os ydynt yn dewis peidio â'u defnyddio. Dylai pobl gael cymorth i wneud y dewisiadau sydd fwyaf priodol ar gyfer eu hamgylchiadau a beth sy'n well ganddynt.

Beth sydd wedi'i wneud? Beth sydd angen ei wneud yn awr? Pwy fydd yn gwneud hyn?

Cyfrifon Trafodol

Mae cyfrifon trafodol yn gwneud cyfraniad pwysig at gynhwysiant ariannol drwy ddarparu ffordd o reoli arian ac fel cam cyntaf tuag at allu manteisio ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau ariannol prif ffrwd. Gall cyfrifon trafodol dderbyn cyflog a budd-daliadau, caniatáu pobl i dynnu arian a chaniatáu i filiau gael eu talu. Felly mae pobl yn gallu manteisio ar nwyddau a gwasanaethau rhatach, gan gynnwys pethau hanfodol fel trydan, nwy a dŵr, gan eu bod yn gallu talu am nwyddau a gwasanaethau drwy ddebyd uniongyrchol.

Banciau a chymdeithasau adeiladu traddodiadol sy'n cynnig cyfrifon trafodol llawn gan amlaf, ond mae yna opsiynau eraill. Nid oes pawb yn cael ei dderbyn i gael cyfrif trafodol llawn ond dylai pawb allu agor cyfrif banc sylfaenol, cyn belled â'u bod yn gallu profi pwy ydyn nhw, oherwydd nid yw gwiriadau credyd yn cael eu defnyddio. Mae cyfrifon banc sylfaenol yn caniatáu talu gyda cherdyn debyd a chreu gorchmynion sefydlog a thaliadau debyd uniongyrchol, ond nid ydynt yn cynnwys gorddrafft. Ym mis Rhagfyr 2014, amcangyfrifir bod naw miliwn o bobl yn defnyddio cyfrif banc sylfaenol yn y DU.⁹ Er mai dim ond Undeb Credyd Gogledd Cymru sy'n cynnig cyfrif cyfredol, mae Undebau Credyd eraill yn cynnig cyfrifon gyda chardiau debyd sydd wedi'u talu ymlaen llaw.

⁹ Trysorlys Ei Mawrhydi

Yn dilyn cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant bancio, ers mis Ionawr 2016 mae naw o fanciau a chymdeithasau adeiladu'r stryd fawr yn cynnig cyfrifon banc sylfaenol newydd heb unrhyw ffioedd na chosbau i bobl nad oes ganddynt gyfrif banc, sy'n anghymwys ar gyfer cyfrif cyfredol neu sy'n methu defnyddio eu cyfrif presennol oherwydd anhawster ariannol. Erbyn hyn, mae cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol yn cael cynnig gwasanaethau ar yr un telerau â chyfrifon cyfredol personol eraill sy'n cael eu cynnig gan y banciau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Undebau Credyd i helpu pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae llawer o Undebau Credyd yn cynnig cyfrifon sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl sydd angen help i gyllidebu, fel cyfrif rhent neu gyfrif cyllidebu (enw cyffredin amdano yw cyfrif pot jam). Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pawb yn gallu cael gwybodaeth am y mathau o gyfrifon sydd ar gael, ond yn enwedig y bobl hynny sydd heb gyfrif banc neu undeb credyd.

Ymrwymiad – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Undebau Credyd a darparwyr eraill i helpu i ddatblygu cyfrifon rhent neu gyllidebu (pot jam) mewn ffordd gynaliadwy

Mae ffigurau'r DU ar gyfer 2012/13 yn dangos nad oedd gan tua 1.5 miliwn o oedolion gyfrif banc – gostyngiad o'r 1.87 miliwn y flwyddyn gynt. Fodd bynnag, nid yw cael mynediad at gyfrif banc yn sicrhau bod y cyfrif yn ddefnyddiol neu'n cael ei ddefnyddio. Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am sut mae cyfrifon banc yn cael eu defnyddio.¹⁰

Mae cael mynediad at gyfrifon a gwasanaethau ariannol drwy fancio ar-lein, ar ffôn symudol a dros y ffôn yn parhau i dyfu. I lawer o bobl, gall hyn fod yn ffordd gyfleus o reoli eu harian, ond nid yw pawb ar-lein nac yn hyderus am eu sgiliau ar-lein. Mae mwy a mwy o ddarparwyr a defnyddwyr yn dewis defnyddio gwasanaethau digidol i wneud trafodion, gyda ffigurau diweddaraf Ofcom yn awgrymu bod 74% o ddefnyddwyr y rhyngwyd yng Nghymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau ar-lein a bod 57% yn bancio ar-lein.

Oherwydd bod pobl yn defnyddio ffyrdd eraill o fancio, a'r lleihad yn sgil hynny yn nifer y trafodion mewn rhai canghennau, mae llawer o'r prif fanciau wedi cyhoeddi eu bod yn cau canghennau lleol yng Nghymru. Mae rhai banciau'n trefnu defnyddio fan symudol i gynnig gwasanaethau bancio i gymunedau (Natwest - cau canghennau yn y Gogledd yn 2015 ac yng Ngogledd Caerdydd yn 2016) neu'n cynghori cwsmeriaid i ddefnyddio eu Swyddfa'r Post leol i ddefnyddio gwasanaethau.

Yn ogystal â chynnig mynediad at wasanaethau bancio prif ffrwd, mae Cyfrif Carden Swyddfa'r Post (POca) yn darparu gwasanaethau bancio syml, ar gyfer pobl sy'n methu agor neu reoli cyfrif banc traddodiadol, i sicrhau eu bod yn gallu derbyn eu budd-daliadau, credydau treth, pensiwn y wladwriaeth, pensiwn rhyfel neu daliadau eraill gan adrannau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrif hwn yn galluogi pobl i dderbyn arian gan ffynonellau eraill, creu debyddau uniongyrchol / gorchmynion sefydlog neu brynu nwyddau gyda cherdyn y cyfrif.

¹⁰ Financial Inclusion Monitoring Report 2015, Prifysgol Birmingham a Friends Provident Foundation

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i ymestyn y POca am saith mlynedd arall. Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dechrau cysylltu â chwsmeriaid sydd â POca - pobl sy'n gweithio'n bennaf - i awgrymu eu bod yn dechrau derbyn eu taliadau mewn cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd. I bobl o oedran gweithio, mae gallu talu cyflog i mewn yn arbennig o bwysig oherwydd mae'n cefnogi'r newid i fod yn 'barod am waith'. Mae dros 85% o bobl sy'n cael budd-daliadau neu bensiynau o'r farn mai cael taliadau i gyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yw'r opsiwn gorau iddynt gan eu bod wedyn yn gallu manteisio ar amrywiaeth ehangach o wasanaethau ariannol.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod gan bawb fynediad at gyfrif trafodol, gyda phobl yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i wneud dewis ar sail gwybodaeth am y math o gyfrif sydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau a gwneud defnydd llawn o'u cyfrif.

Mynediad at arian parod

Mater pwysig yw sicrhau nad yw pobl yn gorfod talu am ddefnyddio peiriannau codi arian, yn enwedig os ydynt eisoes wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae'n gost ychwanegol, ddiangen. Mae nifer y peiriannau codi arian am ddim wedi cynyddu wrth i nifer y peiriannau sy'n codi tâl leihau - ym mis Mehefin 2015, nid oedd tâl am ddefnyddio tua thri chwarter y peiriannau codi arian yng Nghymru, o gymharu ag ychydig o dan ddau ymhob tri yn 2009.

LINK yw prif rwydwaith peiriant arian y DU - mae bron pob peiriant codi arian yn y DU, y rhai sydd am ddim a'r rhai sy'n codi tâl, wedi'i gysylltu â LINK, gan alluogi pobl â chardiau ar hyd a lled y wlad i godi arian. Ar hyn o bryd, mae 3,238 o beiriannau codi arian yng Nghymru sy'n darparu mynediad am ddim at arian parod.

Mae LINK a'i aelodau wedi dyfeisio Rhaglen Cynhwysiant Ariannol i helpu i osod peiriannau codi arian am ddim mewn ardaloedd lle nad oes llawer o beiriannau codi arian am ddim¹¹. Gall grwpiau defnyddwyr a grwpiau cymunedol, Awdurdodau Lleol a chynghorau, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, a phartion eraill â buddiant chwarae rhan allweddol drwy ganfod lleoliadau addas yn eu hardal.

Ym mis Rhagfyr 2006, nodwyd ardaloedd targed â blaenoriaeth ledled y DU a oedd heb beiriant codi arian am ddim - o'r 185 ardal a nodwyd yng Nghymru, mae 41 yn dal i aros (78% wedi'u cwblhau). Roedd yr ardaloedd a nodwyd yn wreiddiol yn seiliedig ar **Ardaloedd Cynnyrch Ehangach**. Dechreuodd LINK raglen ychwanegol yn 2015 yn seiliedig ar **Ardaloedd Cynnyrch** llai ac yn defnyddio meini prawf ychydig yn wahanol: er enghraifft, defnyddio budd-daliadau yn hytrach nag amddifadedd. Mae 54 o'r ardaloedd yng Nghymru sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen newydd wedi'u cwblhau ac mae 202 yn dal i aros.

¹¹ www.link.co.uk/Financial_Inclusion/Pages/home.aspx

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid allweddol a rhwydwaith LINK i sicrhau bod yr ardaloedd hynny sydd wedi'u nodi fel rhai â blaenoriaeth i gael peiriannau codi arian am ddim yn cael sylw ar frys.

Opsiynau Benthycu a Chredyd

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn benthycu arian ar ryw adeg yn ystod eu bywydau. I'r rhan fwyaf o bobl, mae gallu cael credyd o ryw fath yn ddefnyddiol ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau pan nad oes gennym yr arian i dalu amdanynt. Fodd bynnag, mae ymestyn y gost dros gyfnod hwy o amser fel hyn yn golygu ein bod ni'n gorfod talu llog ar yr arian a fenthycwyd gan amlaf (oni bai bod cwmnïau'n cynnig benthyciadau â llog o 0%).

I'r bobl hynny sydd angen benthycu arian, mae sawl ffynhonnell o gredyd tymor byr, ond mae cyfraddau llog benthyciadau'n amrywio'n fawr. Gall pobl ar incymau is neu bobl sydd â sgôr credyd gwael ei chael yn anodd cael credyd ar gyfraddau fforddiadwy (a bydd angen iddynt dalu premiwm yn aml), o gymharu â'r rhai sydd ar incymau uwch neu sydd â sgoriau credyd gwell. Yn ystod y dirwasgiad, roedd meini prawf benthycu y banciau'n llymach, ac agorodd hyn y drws i gynnydd enfawr mewn benthycwyr ar y stryd fawr ac ar-lein sy'n cynnig benthyciadau cyflym gyda chyfraddau llog sy'n gallu bod yn uwch na 1,000 y cant.

Mae ffynonellau traddodiadol gorddrafftiau neu fenthyciadau fel banciau, cymdeithasau adeiladu, Undebau Credyd a **sefydliadau ariannol datblygu cymunedol** (fel Moneyline Cymru) yn cystadlu â chwmnïau benthyciadau cost uchel sy'n cynnig mynediad cyflym at fenthyciadau tymor byr. Mae hysbysebu dros y blynyddoedd diwethaf wedi sbarduno'r twf mewn opsiynau credyd cost uchel, sy'n aml ar gael yn gyflym ar-lein neu ar y stryd fawr, fel benthyciadau diwrnod cyflog, benthyciadau llyfr cofrestru ac, yn fwy diweddar, benthyciadau gwarantwr, lle mae ffrind neu berthynas yn cytuno i ad-dalu'r ddyled os yw'r sawl sy'n cael y benthyciad yn methu â gwneud hynny. Mae opsiynau credyd llog uchel ar y stryd fawr wedi dod yn fwy cyffredin dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n cynyddu'r pwysigrwydd o sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ddulliau eraill o gael hyd i gredyd mwy fforddiadwy.

Mae newidiadau i reoliadau ariannol a therfyn ar gyfraddau llog benthycwyr diwrnod cyflog o fis Ebrill 2015 wedi gorfodi mwy na 100 o fenthycwyr diwrnod cyflog i roi'r gorau i'r busnes. Mae nifer o gwmnïau wedi talu iawndal i gwsmeriaid am arferion gwael a gwnaeth un o'r benthycwyr diwrnod cyflog mwyaf adnabyddus gyhoeddi ei golled flynyddol cyntaf yn 2014. Hefyd, mae'r Young Foundation wrthi'n gwneud gwaith ymchwil ar ddewisiadau amgen i gredyd cost uchel. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r gwaith hwn, ac unrhyw waith ymchwil arall ar y pwnc, yn y Cynllun Cyflenwi.

Roedd ymchwil Cyngor ar Bopeth yn dangos bod nifer y cwynion gan gleientiaid am fenthyciadau diwrnod cyflog wedi gostwng 45 y cant, gyda 5,554 yn nhri mis cyntaf 2015 ac roedd hyn wedi digwydd ar yr un pryd ag y dechreuodd y FCA reoleiddio mwy ar y sector. Fodd bynnag, roedd yr ymchwil yn dweud bod cynhyrchion fel benthyciadau gwarantwr, lle mae ffrind neu berthynas yn cytuno i ad-dalu'r ddyled os yw'r sawl a gafodd y benthyciad yn methu â gwneud hynny, a benthyciadau llyfr cofrestru, gyda cherbydau fel sicrwydd, ar gynnydd. Mae llawer o awdurdodau lleol

yn chwilio am gyfleoedd i helpu pobl nad ydynt o bosibl yn ymwybodol o ddewisiadau rhatach.

Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisi cyfyngu ar amlygrwydd gwefannau “benthycwyr diwrnod cyflog” gan gyfeirio'r rheini sy'n ceisio ymweld â'r gwefannau hyn at gymorth priodol.

Bydd ‘tudalen hyfforddi’ ar gyfer pobl sy'n ceisio ymweld â gwefannau benthycwyr diwrnod cyflog ar gyfrifiaduron y Cyngor – naill ar gyfer defnydd y cyhoedd neu ddefnydd staff – yn cyfyngu ar fynediad ac yn rhoi gwybodaeth am y gymorth sydd ar gael.

Dros y blynnyddoedd diwethaf mae gwystlwyr wedi dychwelyd i sawl stryd fawr. Mae gwystlwyr yn cynnig credyd tymor byr yn seiliedig ar ased, heb unrhyw risg o gasglu dyled neu feilïaid. Yn ôl cyngor Cymdeithas Genedlaethol y Gwystlwyr, os na chaiff y benthyciad ei ad-dalu, mae'r ased yn cael ei werthu gan y gwystlwr ac mae unrhyw warged (ar ôl ystyried y benthyciad, y llog a'r costau – os yw gwerth y benthyciad yn fwy na £75) yn cael ei ddychwelyd i'r cwsmer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i Undebau Credyd ddarparu gwasanaethau i bawb, gyda phobl ar incymau is yn benodol yn elwa ar gael cyngor ariannol cadarn a benthyciadau cyfrifol gan Undebau Credyd. Un o fanteision allweddol Undebau Credyd yw eu parodrwydd i roi benthyciadau bach hyd at £3,000, rhywbeth na fyddai'r rhan fwyaf o fanciau'r stryd fawr yn ei wneud o bosibl.

Mae benthyciadau gan Undebau Credyd yn rhatach gan amlaf na benthyciadau gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ar gyfer symiau bach ac nid oes ffioedd i sefydlu'r benthyciad, costau gweinyddol na ffioedd am ad-dalu'r benthyciad yn gynnar. O dan y gyfraith, ni all Undeb Credyd godi mwy o log na 3% y mis ar y swm sy'n weddill o'r benthyciad (APR o 42.6%), ac mae llawer ohonynt yn codi llai na hyn. Mae'r cyfraddau llog is y gall Undebau Credyd eu codi yn golygu bod y rhan fwyaf yn annhebygol o gynnig credyd tymor byr yn yr un modd â benthycwyr diwrnod cyflog oherwydd ni fyddent yn gallu talu eu costau.

Yn draddodiadol, roedd gan Undebau Credyd reolau llym a oedd yn golygu mai dim ond i bobl â chynilion y byddent yn benthycu arian. Er bod hyn yn wir o hyd yn achos rhai, mae'r sefyllfa'n newid, ac mae bron pob Undeb Credyd yn fodlon benthycu i bobl sy'n newydd i'w sefydliad erbyn hyn.

Un o atyniadau benthyciadau cost uchel, fel benthyciadau diwrnod cyflog, yw gallu cael arian ar unwaith - drwy wneud cais ar-lein yn aml. Mae mwy a mwy o Undebau Credyd yn cynnig yr opsiwn i wneud cais am fenthyciad ar-lein, ond mae angen treulio amser yn ystyried y cais fel rheol. Fodd bynnag, mae Smart Money Cymru ymysg yr Undebau Credyd sydd bellach yn cynnig benthyciadau gyda phenderfyniad yn cael ei wneud ar y diwrnod y daw'r cais i law. Lansiodd Llywodraeth y DU Raglen Ehangu Undebau Credyd yn 2013, sy'n cynnwys Benthycu ar sail Penderfyniad Awtomatig er mwyn cyflymu ceisiadau am fenthyciadau a chost weithredol rhoi benthyciadau. Mae rhai Undebau Credyd yng Nghymru yn cymryd rhan yn yr elfen hon o'r Rhaglen.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector Undebau Credyd, a darparwyr credyd fforddiadwy eraill, i wella mynediad at gredyd / arian tymor byr fforddiadwy, yng Nghymru gyfan. Bydd rhan o'r gwaith hwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i sicrhau gwell dealltwriaeth o sut mae cael credyd, a chostau cymharol credyd.

Yn hytrach na benthyg arian, mae rhai pobl yn dewis talu am wasanaethau neu brynu nwyddau ar gredyd. Mae cardiau credyd yn ffordd hyblyg o gael credyd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ac mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn eu derbyn. Mae mathau eraill o gredyd wedi'u cysylltu â sefydliadau penodol, fel cardiau siopau, cyfrifon catalog neu gwmnïau 'rhentu i brynu'.

Mae modd defnyddio cardiau credyd a chardiau siopau yn lle arian parod heb unrhyw gostau ychwanegol os cânt eu talu'n llawn bob mis. Fodd bynnag, gall y gyfradd log ar gardiau credyd, cardiau siopau a chyfrifon catalog fod yn uchel ar unrhyw weddill sydd heb ei dalu'n llawn, a gall gymryd blynyddoedd i glirio'r ddyled os mai dim ond yr isafswm sy'n cael ei dalu bob mis.

I lawer o bobl, mae defnyddio cwmnïau 'rhentu i berchenogi' yn gallu ymddangos yn ffordd gyfleus o wario, yn enwedig os yw'n anodd iddynt ddod o hyd i'r arian ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n syrthio ar ei hôl hi gyda thaliadau yn wynebu'r bygythiad o weld y nwyddau'n cael eu hadfeddiannu, faint bynnag y byddant wedi'i dalu tuag atynt eisoes. Mae gwaith ymchwil newydd gan y Young Foundation yn ymwneud â chredyd cost uchel yn awgrymu bod rhai pobl ond yn ystyried a allant fforddio'r taliadau rheolaidd ac nad ydynt yn sylweddoli faint y byddant yn ei dalu i gyd cyn perchenogi ar y nwyddau.

Mae rhai pobl yn yr angen mwyaf ac sy'n fwyaf agored i niwed yn troi at opsiynau credyd cost uchel, ond mae dewisiadau amgen ar gael i bobl mewn rhai amgylchiadau. Gall sefydliadau fel Turn To Us, Cyngor ar Bopeth, Cymdeithasau Tai a sefydliadau cynghori eraill helpu pobl sy'n wynebu caledi ariannol i gael mynediad at hawliadau lles, grantiau elusennol a gwasanaethau cymorth. Ar gyfer y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf a lle nad yw cael benthygiad yn briodol neu'n bosibl efallai, gall grantiau elusennol neu Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru roi help llaw.

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae'r gofid a'r straen sy'n dod law yn llaw â phryderon ariannol difrifol yn gallu cael effaith ofnadwy ar iechyd pobl a'u lles meddyliol, a gall teuluoedd chwalu o'u herwydd mewn rhai achosion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i helpu'r bobl fwyaf agored i niwed ledled Cymru pan fyddant angen y cymorth hwnnw fwyaf. Felly, mae cyllid yn cael ei roi i sicrhau bod ein pobl fwyaf agored i niwed yn cael cymorth pan fydd pethau wedi mynd i'r pen neu mewn argyfwng. Drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF), mae cyllid ar ffurf taliadau grant wedi bod ar gael ers 2 Ebrill 2013 i helpu unigolion a theuluoedd sy'n wynebu argyfwng neu ddigwyddiad bywyd mawr a allai gael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u lles.

Sefydlwyd y grant hwn yn dilyn Deddf Diwygio Lles 2012 a oedd yn diddymu elfennau dewisol Cronfa Gymdeithasol Llywodraeth y DU (Benthyciadau mewn Argyfwng a Grantiau Gofal Cymunedol) o 31 Mawrth 2013.

Diben y Gronfa Cymorth Dewisol yw cynnig taliadau neu gymorth o fath arall fel y gall ein pobl fwyaf agored i niwed fyw'n annibynnol neu barhau i wneud hynny a rhoi cymorth brys iddynt. Mae'r bobl hyn yn cynnwys pobl sy'n gadael gofal sefydliadol, yn cynnwys cyd-garcharorion, y rheini a allai orfod dechrau derbyn gofal sefydliadol os na chânt gymorth, pobl ar raglen adsefydlu wedi'i chynllunio, ac unigolion a theuluoedd sy'n wynebu pwysau eithriadol, fel ffoi trais domestig neu anghenion sy'n deillio o salwch cronig, damwain neu anabledd. Rhoddir y taliadau hyn i bobl sydd heb unrhyw fodd arall o dalu costau byw uniongyrchol.

Yn y ddwy flynedd gyntaf (2013/15), mae'r Gronfa wedi helpu dros 56,000 o bobl, gan wario mwy na £14.8 miliwn ar roi cymorth mewn sefyllfaoedd brys neu ar helpu pobl i barhau i fwy'n annibynnol yn y gymuned. Mae'r cymorth yn amrywio o daliadau arian parod bach ar gyfer argyfwng, hyd at nwyddau drutach i'r cartref ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n dechrau byw'n annibynnol.

Yn ogystal â darparu cymorth ariannol brys, mae'r Gronfa yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion ehangach ymgeiswyr hefyd, yn enwedig y rhai agored i niwed a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae'r gronfa'n cael ei chefnogi gan rwydwaith o bartneriaid cyfeirio ledled Cymru sy'n cynnig cysylltiadau lleol cryf â chymorth gyda gallu ariannol, cyngor ariannol, cynyddu incwm a chredyd fforddiadwy. Bu 67% o geisiadau yn y ddwy flynedd gyntaf yn llwyddiannus, a lle na chafodd cymorth ei roi o'r Gronfa, cyfeiriwyd ymgeiswyr at asiantaethau eraill i gael cymorth. Mae'r gwaith cyfeirio hwn yn hollbwysig, a hoffai Llywodraeth Cymru ei weld yn cael ei gryfhau ymhellach yn y dyfodol drwy waith partneriaeth cadarn.

Cydnabyddir pwysigrwydd partneriaethau cadarn gyda sefydliadau eraill, yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, i helpu i ddatblygu ymhellach nifer y ceisiadau sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaid. Gallai'r Gronfa fod yn ffynhonnell gymorth i rywun sy'n mynd at bartneriaid ac, yn aml, mae'r partneriaid hynny yn y sefyllfa orau i gynorthwyo drwy gyfeirio pobl at y Gronfa neu'n helpu gyda'u cais.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chryfhau'r gwasanaeth cyfeirio a roddir i bobl sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion ariannol ehangach, ac i gynyddu nifer y partneriaid sy'n gweithio gyda'u cleientiaid a'u helpu i wneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl sy'n agored i niwed ac wedi'u hallgáu'n ariannol yn troi at fenthycwyr arian anghyfreithlon (didrwydded). Mae Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon Cymru yn parhau i fynd ati i gynyddu ymwybyddiaeth o fenthycia arian anghyfreithlon, gan greu hinsawdd lle y gall dioddefwyr gysylltu â'r awdurdodau heb

ofn dial. Bydd hyn yn galluogi'r Uned i ymchwilio i fenthycwyr arian anghyfreithlon a'u herlyn, ac i helpu y sawl a dargedir ganddynt gyda chymorth sefydliadau partner.

Cynilo

Gall pobl ddi-waith neu bobl ar incwm isel ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd ac nid oes ganddynt unrhyw arian dros ben i gynilo. Gall hyn olygu bod rhaid iddynt wneud dewisiadau ariannol drud yn enwedig wrth wynebu digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau, ac mae risg y byddant yn byw mewn tlodi ar ôl ymddeol hefyd.

Os yw pobl yn gallu cynilo - hyd yn oed symiau bach - yn rheolaidd neu bob hyn a hyn, gall wneud gwahaniaeth sylweddol a golygu eu bod mewn sefyllfa well i allu ymdopi â digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau, heb orfod troi at fenthycwyr cost uchel. Mae sawl opsiwn gwahanol ar gyfer cynilo tymor byr, gyda banciau, cymdeithasau adeiladu ac Undebau Credyd yn cynnig cyfrifon mynediad hawdd neu gyfrifon sy'n gofyn am hyn a hyn o rybudd cyn i chi allu tynnu arian ohonynt, yn ogystal â chyfrifon cynilo rheolaidd ac ISAs. Mae llawer o Undebau Credyd wedi dechrau gweithio gyda chyflogwyr lleol i gynnig cynlluniau didynnu o'r gyflogres fel y gall gweithwyr dalu arian yn uniongyrchol o'u cyflog i mewn i gyfrif cynilo.

Mae manteision sylweddol yn deillio o gyflogwyr yn gweithio gydag Undebau Credyd i annog eu gweithwyr i gynilo'n rheolaidd drwy gynilion cyflogres neu fenthyciadau, neu gynlluniau didynnu o'r gyflogres. Mae cynlluniau cyflogres yn ffordd syml a chyfleus o gynilo neu ad-dalu benthyciad, felly mae hysbysebu'r opsiwn hwn yn y gweithle yn ffordd wych o hwyluso hyn. Bydd rhai Undebau Credyd yn cynnig buddion ychwanegol i aelodau sy'n cynilo drwy'r gyflogres, gan gynnwys cyfraddau llog gwell ar fenthyciadau sy'n gallu cael eu cynnig fel rhan o gyfres o fuddion i weithwyr o fewn yr agenda les.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ddyfal yn hyrwyddo partneriaethau gydag Undebau Credyd ymysg cyflogwyr, gan gydnabod y manteision i bawb - i gyflogwyr, gweithwyr ac Undebau Credyd. I weithwyr, gall Undebau Credyd helpu i feithrin agwedd gyfrifol tuag at gredyd, helpu gyda'r elfennau lles a llesiant o fod yn gyflogwr gofalgwr a, hefyd, helpu Undebau Credyd drwy gynyddu nifer eu cwsmeriaid; sy'n hwb i'w cynaliadwyedd hirdymor.

Rydym yn cydnabod hefyd bod cyfle i godi ymwybyddiaeth o Undebau Credyd fel rhan o gontractau caffael y sector cyhoeddus. Felly, bydd canllawiau Budd i'r Gymuned ac Offeryn Mesur Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r cyfle i ystyried hyrwyddo Undebau Credyd drwy gontractau'r sector cyhoeddus.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector Undebau Credyd i annog mwy o gynlluniau Didynnu o'r Gyflogres (neu ddebyd uniongyrchol) yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Ymrwymiad: bydd cynlluniau cynilo a benthyc drwy ddidynnu o'r gyflogres yn cael eu cynnwys yn y canllawiau Budd i'r Gymuned fel opsiwn di-graidd, a chofnodir y broses o greu cynlluniau o'r fath drwy ddefnyddio Offeryn Mesur

Budd i'r Gymuned mewn achosion lle mae awdurdodau contractio sector cyhoeddus yn nodi bod cynlluniau o'r fath yn amcan Budd i'r Gymuned.

Mae cyfrifon cynilo penodol ar gael i oedolion sydd am gynilo arian ar gyfer eu plant neu eu hwyrion. Mae Undebau Credyd ynghlwm wrth nifer o gynlluniau cynilo llwyddiannus gydag ysgolion, sy'n rhoi cyfle i lawer o blant a phobl ifanc gynilo'n rheolaidd drwy gyfleusterau yn yr ysgol.

Mae cyfrifon â mynediad cyfyngedig - er enghraifft, cyfrifon sy'n cael eu rheoli mewn cangen yn unig neu gyfrifon cynilo arbennig ar gyfer y Nadolig - yn dileu neu'n lleihau'r temtasiwn i bobl wario eu cynilion. Mae ffyrdd eraill o gynilo hefyd, fel clybiau cynilo at y Nadolig neu stampiau cynilo archfarchnad sy'n helpu i rannu'r gost dros y flwyddyn. Fodd bynnag, drwy'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol, mae banciau, cymdeithasau adeiladu ac Undebau Credyd yn diogelu cynilion hyd at £75,000 i raddau llawer mwy na "chlybiau cynilo" masnachol, fel y gwelwyd yn 2006 pan aeth cwmni Farepak, clwb hamper Nadolig, yn fethdalwr.

Nid yw llawer o bobl yn cynilo digon ar gyfer eu hymddeoliad. Nod cyflwyno cofrestru awtomatig ar gyfer pensiynau o 2012 yw cynyddu cynilion ym mhensiynau'r gweithle. Erbyn 2018, bydd yn sicrhau bod gan bob gweithiwr dros 22 oed sy'n ennill mwy na £10,000 y flwyddyn hawl i bensiwn yn y gweithle, oni bai ei fod yn dewis peidio â chael un. Mae deddfwriaeth arall wedi newid sut mae pobl yn gallu cael mynediad at holl gronfa eu pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig pan fyddant yn ymddeol, gan roi ffynhonnell arall bosibl o arian. Mae Pension Wise, menter llywodraeth y DU, yn cynnig arweiniad am ddim ar bensiynau.

I'r rhai sydd â mwy o arian i'w gynilo, neu sy'n gallu rhoi arian mewn cynilion mwy hirdymor, mae sawl opsiwn ar gyfer buddsoddi at y dyfodol, boed yn gynlluniau cynilo rheolaidd, Cyfrifon Cynilo Unigol di-dreth, pensiynau personol neu gynhyrchion fel cynlluniau costau angladd neu ofal hirdymor.

Gwasanaethau Ariannol

Dylai'r mwyafrif o bobl ystyried yswiriant yn wasanaeth ariannol pwysig, p'un ai a yw'n yswiriant cerbyd modur, yswiriant adeiladau neu gynnwys, yswiriant salwch critigol, yswiriant bywyd, yswiriant iechyd, yswiriant diogelu incwm/cyflogaeth neu yswiriant tenantiaeth. Bydd y mathau o gynhyrchion yswiriant y mae pobl yn eu hystyried yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol a byddant yn newid yn ôl eu hamgylchiadau.

Yn wahanol i fathau eraill o yswiriant, mae yswiriant car yn ofyniad cyfreithiol oni bai bod cerbyd wedi'i gofrestru'n ffurfiol fel cerbyd nad yw'n cael ei ddefnyddio. Mae gan yr heddlu'r pŵer i atafaelu a dinistrio unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru heb yswiriant. Dylai modurwyr sicrhau bod eu polisi yswiriant yn addas i'w hanghenion, ond dylid eu rhybuddio yn erbyn "ffug broceriaid" sy'n gwerthu yswiriant ffug i'r rhai sy'n talu'r premiymau uchaf drwy gynnig cynigion rhad.

Mae rhai pobl yn ystyried yswiriant cartref, yswiriant cynnwys neu yswiriant tenantiaeth yn rhywbeth anfforddiadwy neu foethus, ond gallai'r gallu i brynu

nwyddau angenrheidiol newydd i'r cartref yn dilyn digwyddiad annisgwyl, fel lladrad neu lifogydd, gael effaith sylweddol ar yr aelwyd.

Mae pobl sy'n byw mewn cartrefi rhent yn llai tebygol o lawer o fod ag yswiriant cynnwys¹². Dylid cynorthwyo awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac Undebau Credyd pan fyddant yn chwilio am ffyrdd o hybu yswiriant rhad neu fforddiadwy.

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig Cynllun Yswiriant Cynnwys y Cartref i Denantiaid sy'n galluogi tenantiaid i asesu eu cyfradd yswiriant eu hunain gwerth rhwng £8,000 a £35,000. Gellir talu premiymau'n wythnosol, gan dalu cyn lleied â £0.78 yr wythnos am yswiriant safonol, sy'n rhoi yswiriant gwerth £8,000. Hefyd, mae cyfraddau arbennig ar gyfer yr henoed a thenantiaid o dan 25 oed. Mae'r cyfrifon yswiriant hyn yn annibynnol ar gyfrifon rhent.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnig yswiriant Cynnwys y Cartref i denantiaid - mae'n cael ei gasglu gyda'r rhent wythnosol. Mae 21% o denantiaid y Cyngor yn manteisio ar y cynllun hwn. Mae yswiriant difrod damweiniol ar gael fel elfen "ychwanegol" o'r yswiriant.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynnig yswiriant cynnwys y cartref fforddiadwy ar gyfer pob cymdeithas tai yng Nghymru – My Home Contents Insurance. <http://www.thistlemyhome-cymru.co.uk/>

Mae rhai cyflogwyr ac undebau llafur yn gallu trefnu mathau penodol o yswiriant – weithiau am bris rhatach – ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Fodd bynnag, dylai unigolion gymharu'r yswiriant hwn â'r hyn a gynigir gan ddarparwyr eraill er mwyn sicrhau'r fargen orau ar gyfer eu hamgylchiadau.

I bobl sy'n ddigon hyderus i chwilio ar-lein, mae gwefannau cymharu yn gallu bod o gymorth i ddod o hyd i yswiriant am brisiau cystadleuol a chymharu beth yn union mae'r yswiriant yn ei gynnwys. I'r rhai nad ydynt yn hyderus i chwilio ar-lein, neu sydd â gofynion yswiriant gwahanol, gall broceriaid yswiriant ddarparu gwasanaeth tebyg dros y ffôn neu mewn swyddfa ar y stryd fawr. Gall defnyddio broceriaid yswiriant fod yn briodol hefyd i'r rhai sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i gynhyrchion am bris cystadleuol oherwydd materion fel hawliadau neu lifogydd blaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai Awdurdodau Lleol, Undebau Credyd, Cymdeithasau Tai a Phartneriaid Cyngor annog cleientiaid a thenantiaid i sicrhau bod ganddynt yswiriant personol ac yswiriant eiddo priodol. Gallai hyn gynnwys gwaith i ddeall pam nad oes gan gleientiaid yswiriant, nodi arferion gorau a'u rhoi ar waith, a, lle bo hynny'n briodol, ystyried darparu cynhyrchion am brisiau cystadleuol.

¹² Aviva Family Finances Report, Awst 2015

Mynediad at Wybodaeth Ariannol, gan gynnwys Cyngor ar Ddyled

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae unigolion a theuluoedd yn gallu rheoli eu harian yn well trwy gael mynediad at wybodaeth ariannol o ansawdd da a chyngor ar arian a dyled gyda sicrwydd ansawdd, gyda phobl yn cael eu cyfeirio'n briodol at y ffynonellau cymorth mwyaf addas.

Mae pawb yn chwilio am gyngor neu wybodaeth ariannol ar ryw adeg, boed er mwyn eu helpu i bennu neu reoli cyllideb y cartref, rheoli problemau dyledion cyfredol neu nodi'r dewis gorau ar gyfer cynilo a buddsoddi. Gall pobl droi at bob math o ffynonellau gwybodaeth amrywiol – ffrindiau a theuluoedd, y Rhynggrwyd, y cyfryngau, darparwyr cyngor am ddim, darparwyr cyngor am dâl ac ati.

Mae'n bwysig i bobl sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng gwybodaeth, canllawiau a chyngor:

- mae gwybodaeth fel arfer yn golygu deunydd cyffredinol mewn print neu ar-lein sy'n gosod y ffeithiau ac yn annog pobl i benderfynu o'u pen a'u pastwn eu hunain;
- mae canllawiau'n darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i amgylchiadau'r unigolyn, ond ni fydd yn argymhell unrhyw gynhyrchion penodol nac yn dweud wrth yr unigolyn beth i'w wneud;
- mae cyngor yn cael ei ddarparu gan gynghorwyr sy'n cydweithio â rhywun i drafod opsiynau amrywiol, sut maen nhw'n berthnasol i sefyllfa'r unigolyn a phenderfynu ar ba gamau i'w cymryd (a'u helpu i gymryd y camau hynny). Dim ond darparwyr sydd wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n gallu darparu cyngor am arian a dyledion.

Bydd llawer o bobl angen, neu'n dewis, benthyg arian ar ryw adeg yn ystod eu bywydau, boed i brynu rhywbeth drud, talu biliau'r tŷ neu am reswm arall. Mae mynediad at wybodaeth a chyngor ariannol o ansawdd yn bwysig fel bod pobl yn gwneud dewisiadau priodol a fforddiadwy sy'n rhan bwysig o'n thema gallu ariannol.

Er bod llawer o bobl yn llwyddo i reoli eu cyllid, mae llawer o bobl eraill mewn perygl o fynd i anhawster ariannol difrifol a methu â dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnynt wedyn. Pan fydd ad-dalu dyledion a gwariant arferol yr aelwyd yn mynd allan o reolaeth, efallai bydd pobl am gael cyngor neu wybodaeth ar ddyled a fydd yn eu helpu i ddatrys eu problemau. Mae tystiolaeth glir fod chwilio am gymorth yn gynnar yn arwain at y canlyniadau gorau i unigolion ac yn gallu osgoi problemau'n gwaethygu nes bod angen cymorth arbenigol.

I lawer, mae mynediad at wybodaeth ariannol yn cychwyn gydag addysg ariannol yn yr ysgol. Rydym yn trafod hyn fel rhan o thema graidd gallu ariannol.

Beth sydd wedi'i wneud? Beth sydd angen ei wneud yn awr? Pwy fydd yn gwneud hyn?

Gall pobl chwilio am wybodaeth neu gyngor ariannol am sawl rheswm. Efallai y bydd rhai angen cymorth i gyllidebu ar gyfer biliau'r cartref er mwyn peidio â mynd i ddyled; tra bod eraill angen cymorth i hawlio budd-daliadau neu gyngor ar ddyledion.

I lawer, bydd y cyngor hwn ar gael am ddim gan sefydliadau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru ac eraill.

Efallai y bydd pobl yn gofyn am gyngor ar faterion buddsoddi neu gynllunio ar gyfer y dyfodol hefyd, gan gynnwys cyngor ar bensiynau. Efallai y bydd angen talu am gynghorion o'r fath gan ymgynghorwyr ariannol annibynnol sy'n gallu cynghori ar bob rhan o'r farchnad; neu y bydd ar gael am ddim gan sefydliadau ariannol annibynnol sydd wedi'u cyfyngu i'w cynhyrchion eu hunain. Mae Pension Wise, a ariennir gan Lywodraeth y DU a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn gallu darparu gwybodaeth a chanllawiau manwl, ond ni fyddant byth yn argymhell cynhyrchion penodol.

Roedd yr Adolygiad o'r Farchnad Cyngor Ariannol gan Lywodraeth y DU yn gyfle i archwilio'r "bwloch cynghorion" ar gyfer pobl nad oes ganddynt gyfoeth sylweddol a sicrhau bod cwmnïau'n cael eu hannog i ddarparu cyngor ariannol fforddiadwy a hygyrch. Hefyd, roedd yn ystyried pa rwystrau sydd ar waith o bosibl ar hyn o bryd i atal pobl rhag gofyn am gyngor ariannol. Roedd yr adolygiad yn pwysu a mesur pob math o gynhyrchion ariannol manwerthol gan gynnwys pensiynau, cynilion, morgeisi ac yswiriant. Disgwylir y bydd y cynigion yn cael eu cyflwyno cyn y Gyllideb ym mis Mawrth 2016. Byddwn yn adolygu unrhyw gynigion perthnasol sy'n deillio o'r adolygiad hwn ac o'r adolygiad o drefniadau i ddarparu canllawiau ariannol di-dâl a diduedd wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon.

Nid yw darparu gwasanaethau cynghori na'r ffaith fod adnoddau ar-lein ar gael yn golygu y bydd pobl yn gwybod amdanynt neu'n barod i'w defnyddio. Wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r dechnoleg ddigidol, maent yn fwyfwy tebygol o fynd ar-lein i chwilio am gyngor ariannol a chynghori ar reoli dyled. Mae gwefannau fel y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Money Made Clear Wales yn darparu gwybodaeth gyda sicrwydd ansawdd, ond gall gwaith pori a chwilio ar-lein hefyd arwain rhai at gwmnïau sy'n codi tâl am wybodaeth neu gyngor sydd ar gael yn rhad ac am ddim gan ffynonellau eraill, sydd hefyd yn well a chyda mwy o sicrwydd ansawdd.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwefan Money Made Clear a gwefannau perthnasol eraill i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth am y cymorth â sicrwydd ansawdd sydd ar gael i'r rhai sydd ei hangen fwyaf. Hefyd, o gofio nad yw pawb yn gallu cyrchu'r we, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid priodol i ystyried y gwaith cydgysylltiedig a chodi ymwybyddiaeth ychwanegol sydd ei angen yn y maes hwn.

Yn aml, dim ond ar ôl mynd i drafferthion ariannol y mae pobl yn meddwl chwilio am gyngor ar ddyled, yn enwedig os nad oes modd rheoli ymrwymadau arferol. Yn ddelfrydol, dylent ofyn am gymorth cyn gynted ag y maent yn sylweddoli na allant ddefnyddio eu hincwm i dalu eu holl gostau byw. Mae cryn dystiolaeth gan ddarparwyr cyngor yn dangos bod cysylltu'n fuan â benthycwyr a darparwyr gwasanaethau yn arwain at ganlyniadau gwell a llai o boen meddwl i'r unigolyn. Serch hynny, rhaid gwneud mwy i ddylanwadu ar gredydwyd i wneud newidiadau polisi nad ydynt yn cynyddu dyledion pobl na allant eu fforddio yn y lle cyntaf, er enghraifft, trwy arferion benthycu gwael neu arferion adennill afresymol o ddrud.

Mae ffigurau Cyngor ar Bopeth Cymru¹³ dros y tair blynedd diwethaf yn dangos mai problemau'n gysylltiedig â budd-daliadau sy'n poeni cleientiaid fwyaf erbyn hyn, yn fwy na materion dyled. Mae'r math o gymorth y mae pobl ei angen wedi newid hefyd – gyda 51% yn fwy o broblemau gydag ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn 2014-15 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gyda Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu cynllun Cymorth y Dreth Gyngor i aelwydydd incwm isel, mae'r elusen yn awgrymu bod hwn yn debygol o gael ei briodoli i bobl sy'n ei chael yn anodd byw ar incwm isel. Bu cynnydd o 28% mewn problemau gydag ôl-ddyledion rhent yn ystod yr un cyfnod. Gall ôl-ddyledion rhent effeithio ar denantiaid cymdeithasol a phreifat. Er bod y rhan fwyaf o denantiaid tai cymdeithasol yn gallu cael cyngor gan eu landlordiaid, gallant elwa ar gyngor hollataidd a chwbl annibynnol weithiau hefyd. Gall tenantiaid preifat fod wedi'u heithrio'n ariannol i'r un graddau hefyd, ond yn aml bydd yn anoddach iddynt ddod o hyd i'r cymorth angenrheidiol.

Yn y gorffennol, mae cynghorwyr ariannol a dyledion wedi gallu nodi'r budd-daliadau lles a'r credydau treth oedd ar gael i bobl a oedd heb fanteisio arnynt o'r blaen, er mwyn lleihau, ac mewn rhai achosion, dileu trafferthion ariannol. Mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU eisoes wedi lleihau'r cyfle i ychwanegu at incwm trwy hawliadau statudol. Mae effeithiau cronol y diwygiadau hyn a rhai eraill sydd eto i ddod yn lleihau'r cymorth ariannol i deuluoedd sy'n gweithio ar gyflog isel a grwpiau agored i niwed eraill.

Wrth i'r rhwyd diogelwch ariannol ddiflannu, mae darparwyr cyngor yn barod am gynnydd yn y galw am gyngor ar ddyled ac arian. Gydag adnoddau prin, bydd yn bwysig sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed, yn cael eu nodi'n gynnar a'u cyfeirio at y ffynhonnell cymorth fwyaf addas i'w problemau penodol nhw. Bydd dulliau cyfeirio a rhwydweithiau atgyfeirio effeithiol ar lefel leol a chenedlaethol yn hollbwysig er mwyn rheoli'r llif disgwylidig o geisiadau am gymorth. Pan fydd angen cyngor llawn, dylid atgyfeirio unigolion bob amser at ddarparwr sydd wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Ymrwymiad – bydd Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner yn sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau cymorth gyda sicrwydd ansawdd yn ôl yr angen, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i adnoddau ar-lein y gellir ymddiried ynddynt a gwasanaethau cyngor a gwybodaeth achrededig gyda sicrwydd ansawdd sydd ar gael trwy wefannau perthnasol, cylchlythyron, digwyddiadau a chyfleoedd hyrwyddo eraill.

Ymrwymiad - bydd Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner yn defnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau o arferion gorau i ddeall effaith polisiau ac arferion eraill ar gynhwysiant ariannol ac yn newid polisiau os oes ganddynt gyfrifoldeb am wneud hynny neu'n dylanwadu ar newid lle mae modd gwneud hynny.

¹³ Cyngor ar Bopeth Cymru, Tueddiadau Cyngor yng Nghymru 2014-15

Bydd pobl nad ydynt yn barod i dderbyn eu bod angen cyngor arbenigol ar faterion ariannol neu ddyledion weithiau'n gobeithio y bydd pethau'n gwella gydag amser, neu'n dilyn cyngor gan ffynonellau nad ydynt yn rhai arbenigol. Efallai nad yw eraill yn gwybod bod cyngor – yn enwedig cyngor am ddim – ar gael, neu byddant yn “rhy falch” i dderbyn eu bod angen cymorth. Gall hyn fod yn wir am bobl hŷn yn benodol, yn yr un modd â nad ydynt bob amser yn hawlio'r holl fudd-daliadau y gallent fod yn gymwys i'w derbyn. Bydd yn bwysig gweithio gydag amryw o bartneriaid er mwyn nodi'r dulliau arloesol o estyn allan at bobl mewn angen a'u hannog i gael cyngor, neu dderbyn cyngor ynghynt.

Un o'r ffyrdd allweddol y gall pob sefydliad partner gyfrannu at hyrwyddo cynhwysiant ariannol yw trwy gynorthwyo ac annog eu gweithwyr rheng flaen i ddarparu gwasanaeth 'cyfeirio' at wybodaeth a chynghor ariannol. Mae gan weithwyr rheng flaen neu wirfoddolwyr Awdurdodau Lleol, y gwasanaeth iechyd, Cymdeithasau Tai, addysg i oedolion yn y gymuned a lluoedd sefydliadau eraill gyfle i ddefnyddio eu cysylltiadau cyfredol â phobl i nodi pwy a all fod angen cymorth i newid eu sefyllfa ariannol a darparu gwasanaeth 'cyfeirio' at ddarparwyr cyngor priodol neu adnoddau ar-lein addas, er enghraifft, er mwyn helpu gyda chyllidebu.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi bod yn gweithio ar ymgyrch codi ymwybyddiaeth gyhoeddus Energy Best Deal¹⁴ gyda chymorth Ofgem a'r prif gwmnïau ynni ers 2008. Aelodau o fforymau gallu ariannol rhanbarthol sy'n cyflwyno'r cynllun Best Energy Deal yma yng Nghymru.

Mae'r sesiynau wedi'u hanelu at ddefnyddwyr incwm isel a staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd y gellir eu cyfeirio at bob math o gymorth pellach fel help gyda dyledion tanwydd, hawlio budd-daliadau ac arbed ynni. Mae tystiolaeth yn dangos bod gweithwyr rheng flaen yn defnyddio'r wybodaeth i helpu cyfartaledd o 15 o bobl yn ystod y flwyddyn wedi'r hyfforddiant.

Bydd angen gwybodaeth fapio gyfredol a chywir am ddarparu gwasanaethau cynghori ledled Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfeirio o'r fath, yn ogystal â gwybodaeth am le y gall pobl ddod o hyd i'r amrywiaeth o adnoddau gyda sicrwydd ansawdd sydd ar gael ar-lein. Hefyd, bydd angen i sefydliadau perthnasol sicrhau bod eu staff rheng flaen a'u gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth sydd ar gael a'u bod yn cael eu hannog i ymgysylltu â phobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol, neu sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n ariannol.

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol waith mapio ddiwedd 2015, a bydd canlyniadau'r gwaith ar gael i'r cyhoedd ac eraill sy'n cyfeirio pobl sydd angen cyngor a gwybodaeth at ffynonellau dibynadwy trwy ddefnyddio map rhyngweithiol a fydd yn dangos gwasanaethau cymorth wyneb yn wyneb, ar-lein a thros y ffôn. Bydd cynlluniau i gynnal y cyfeiriadur gwasanaethau hwn yn cael eu datblygu fel rhan o Strategaeth Cyngor a Gwybodaeth Cymru a gyflwynir yn 2016.

¹⁴ <https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/our-prevention-work/financial-skills-for-life/financial-skills-for-life-what-we-do/energy-best-deal/>

Ymrwymiad – bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn llunio cyfeiriadur o wasanaethau cyngor a gwybodaeth ac yn datblygu cynlluniau i sicrhau bod y cynnwys yn gywir, yn hygyrch, yn gyfoes ac yn cysylltu â'r Fframwaith Ansawdd Cyngor a Gwybodaeth i Gymru.

Mae angen ymddiriedaeth rhwng unigolion a sefydliadau er mwyn creu rhwydweithiau atgyfeirio effeithiol. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau ymddiried yn y sefydliad sy'n eu hatgyfeirio i ddarparwr arall ar gyfer cymorth arbenigol gyda dyled neu gyngor ariannol, a rhaid i'r sefydliad sy'n atgyfeirio pobl fod yn hyderus bod y darparwr cyngor yn gallu cynorthwyo mewn modd sy'n sensitif i anghenion ei gleientiaid. Rhaid i unrhyw wybodaeth a drosglwyddir rhwng asiantaethau fel rhan o'r broses atgyfeirio fod yn gwbl ddiogel, ac ni ddylid ei throsglwyddo heb ganiatâd y defnyddwyr gwasanaethau.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau ar gyfer Fframwaith Ansawdd Cyngor a Gwybodaeth i Gymru (IAQF Cymru) sy'n cael ei ddatblygu yn ystod 2015/16 a'i gyflwyno'n raddol wedyn. Bydd IAQF Cymru yn cyflwyno cynllun achredu unigol sy'n cynnig nod ansawdd amlwg i gyllidwyr, darpar bartneriaid atgyfeirio a'r cyhoedd. Bydd y fframwaith yn mynd i'r afael â'r elfennau canlynol a ddylai helpu darpar ddefnyddwyr gwasanaethau i ymddiried yn y darparwr o'u dewis:

- Rheolaeth Gyffredinol;
- Cynllunio;
- Gofal i gwsmeriaid;
- Gwasanaethau cynghori penodol;
- Cymhwysedd y cyngorwr;
- Y Gymraeg;
- Canlyniadau.

Bydd IAQF Cymru yn cyflwyno meini prawf cymesur a hyblyg er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg sy'n bodloni gofynion safonau Comisiynydd y Gymraeg fel y maent yn berthnasol i randdeiliaid amrywiol. Mae'r dull gweithredu ymarferol hwn yn cyd-fynd â strategaeth y Gymraeg – Iaith Fyw: Iaith Byw a nod y Gymraeg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai arferion gorau gynnwys ieithoedd cymunedol eraill hefyd.

Ymrwymiad – bydd Llywodraeth Cymru ond yn estyn cymorth ariannol ar gyfer darpariaeth cyngor a gwybodaeth gyda sicrwydd ansawdd, a bydd yn annog sefydliadau partner i fabwysiadu'r un polisi.

Ffrwyth cydweithio rhwng sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl a all fod wedi'u hallgáu'n ariannol yw Fforwm Cynhwysiant Ariannol Casnewydd. Mae'r Fforwm yn cydlynw'r broses o ddatblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Ariannol ac yn darparu cyfleoedd i sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o bolisiau ac ymyriadau newydd, ac yn ceisio osgoi ailadrodd gweithgareddau lle bo modd.

Roedd aelodau'r Fforwm o'r farn y byddai ffynhonnell wybodaeth ganolog yn ddefnyddiol, felly cyhoeddwyd Cyfeiriadur Cynhwysiant Ariannol ym mis Mai 2015. Mae'n darparu manylion – gan gynnwys rhif cyswllt – y sefydliadau sy'n darparu cymorth ar gyfer pob math o faterion perthnasol. Rhagwelir y bydd y Cyfeiriadur yn cael ei ddiweddarw bob blwyddyn.

Law yn llaw â datblygu'r Cyfeiriadur, aethpwyd ati i greu tudalennau cyngor ariannol ar wefan y Cyngor Sir: www.newport.gov.uk/money

Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod dolenni cyswllt a chyfeiriadau clir ar gael ar gyfer gwasanaethau cyngor ariannol trwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau cadarn o'r porth gofal a chymorth cenedlaethol i ddinasyddion sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Ymrwymiad – sefydliadau partner i nodi a hyfforddi staff rheng flaen sy'n gallu darparu gwasanaethau cyfeirio a sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cynghori ataliol ac argyfwng yn eu hardaloedd nhw a dolenni i adnoddau ar-lein priodol

Rydym yn cydnabod bod angen i bobl oresgyn amryw o rwysrau i'w galluogi i gael swydd. Gall y rhwysrau hyn gynnwys mynediad i ofal plant fforddiadwy, cludiant a'r amrywiaeth o wasanaethau a chynghor ariannol sydd eu hangen arnynt i gadw eu swyddi. Mae'r materion hyn yn hollbwysig i raglenni cymorth cyflogaeth Llywodraeth Cymru a'r bobl maen nhw'n ceisio'u cynorthwyo: mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod llwybrau a rhwydweithiau atgyfeirio addas a sefydledig ar gael fel bod pobl yn derbyn y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, p'un ai a ydynt yn gweithio, yn ddiwaith, yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig.

Ymrwymiad - bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i rhaglenni ei hun a rhaglenni partneriaid, sy'n helpu pobl i gael gwaith, er mwyn mynd i'r afael â'r rhwysrau allgáu ariannol sy'n wynebu pobl sy'n ceisio dod o hyd i waith.

Meithrin Dealltwriaeth a Gallu Ariannol

Ein gweledigaeth yw bod gan bawb yng Nghymru'r gallu ariannol i reoli eu harian yn dda a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, boed yn gysylltiedig â bywyd bob dydd, cynllunio ymlaen, wrth wynebu digwyddiadau annisgwyl neu gyfnodau o drafferthion ariannol.

Mae'r term 'gallu ariannol' yn cael ei ddefnyddio i ddiffinio sgiliau, gwybodaeth, hyder, gallu a chymhelliant pobl o safbwynt materion ariannol. Mae addysg ariannol – o blentyndod i oedran hŷn – yn gallu darparu sgiliau a gwybodaeth fel bod unigolyn yn dod yn hyddysg mewn materion ariannol. I fod yn ariannol alluog, rhaid i unigolyn fod â'r hyder, y gallu a'r cymhelliant i gymhwyso'r sgiliau a'r wybodaeth i'w sefyllfa ei hun, er mwyn ei helpu i reoli ei arian yn well a gwneud penderfyniadau ariannol ar sail gwybodaeth.

Mae cynyddu gallu ariannol yng Nghymru yn bwysig, ond rhaid i hynny fynd law yn llaw ag annog pobl i newid eu hymddygiad ariannol fel eu bod yn defnyddio'r sgiliau ariannol hynny i reoli eu harian yn dda, gweithredu ar sail gwybodaeth/cyngor priodol, gwneud yn fawr o'u hincwm, lleihau eu halldaliadau a chael gafael ar y fargen orau o ran nwyddau a gwasanaethau. Mewn geiriau eraill, mae gallu ariannol wrth wraidd y themâu eraill yn y Strategaeth hon.

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n datblygu'r sgiliau gofynnol i reoli eu harian yn dda yn gallu lleihau'r straen personol sy'n gysylltiedig â thrafferthion ariannol. Fodd bynnag, mae gallu ariannol nid yn unig yn bwysig i unigolion, ond mae'n gallu bod o les i'r gymuned ehangach, fel y nododd Comisiwn Cynhwysiant Ariannol y DU¹⁵, "*with a firm grounding in the basics of personal finance and sound money management skills, people are not only better able to handle their own finances, but are better equipped to succeed in business and drive economic growth*".

Beth sydd wedi'i wneud? Beth sydd angen ei wneud yn awr? Pwy fydd yn gwneud hyn?

Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer Cymru wedi'i chydlyn gan MAS

Roedd adroddiad Comisiwn Cynhwysiant Ariannol y DU a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015 yn argymhell datblygu "*a robust, outcomes-based evaluation of how to improve financial capability, with resources to enable it, developed with industry, government, consumer groups and civil society, and co-ordinated by a reformed Money Advice Service*".

Cyhoeddwyd Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer y DU¹⁶, wedi'i chydlyn gan MAS, ym mis Hydref 2015. Ar ôl ymgynghori, aeth MAS ati i fabwysiadu diffiniad o allu ariannol sydd hefyd yn cynnwys rhai o elfennau ystyriaethau ehangach cynhwysiant ariannol, gan gynnwys materion a gwmpesir gan ddwy thema gyntaf y Strategaeth hon.

¹⁵ <http://www.financialinclusioncommission.org.uk/report>, paragraff 3.102

¹⁶ http://www.fincap.org.uk/uk_strategy

Mae MAS Cymru hefyd wedi paratoi Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer Cymru¹⁷, sy'n cydnabod y gwahaniaethau hyn. Mae'r Strategaeth yn nodi sawl maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Sicrhau rhagor o gysondeb ym maes addysg ariannol ym mhob amgylchedd dysgu gan dargedu dysgwyr o bob oed a'r rhai sy'n eu helpu a'u haddysgu nhw;
- Gwerthuso ymyriadau gallu ariannol yng Nghymru mewn modd sy'n ein galluogi i greu meincnod a chymharu ymyriadau a nodi beth sy'n gweithio'n dda;
- Dylanwadu ar bolisi cymdeithasol/rheoleiddiol ar ddarparu credyd fforddiadwy;
- Cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyngor ariannol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar deuluoedd â phlant, a phobl hŷn.

Bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol, yn ystyried y meysydd blaenoriaeth a'r camau gweithredu cysylltiedig wrth lunio'r Cynllun Cyflawni sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon.

Ymrwymiad: bydd Llywodraeth Cymru, trwy gyfrwng y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol diwygiedig, yn cefnogi MAS Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'r camau arfaethedig yn Strategaeth Gallu Ariannol MAS ar gyfer Cymru sy'n cyfrannu at ymrwymadau'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon.

Cynhwysiant Digidol

Rhaid ystyried pwysigrwydd sgiliau digidol hefyd mewn perthynas â gallu ariannol gan fod llawer o'r cynigion neu'r bargeinion gorau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau i'w cael ar-lein. Er enghraifft, defnyddio gwefannau cymharu prisiau i sicrhau'r fargen orau wrth ddewis cyflenwr neu yswiriant.

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 fod 81% o oedolion y wlad yn defnyddio'r we yn rheolaidd, o gymharu â 66% yn 2010. Mae'r Adroddiad Marchnad Cyfathrebu diweddar gan Ofcom, a gyhoeddwyd ar 6 Awst 2015, yn awgrymu bod y ganran hon yn uwch, sef 86%. I'r rhai hynny nad ydynt ar-lein eto, y prif rwystrau yw diffyg cymhelliant (naill ai ddim eisiau neu ddim angen bod ar-lein), diffyg sgiliau, cost a phreifatrwydd a phryderon diogelwch.

Yn ôl ymatebwyr Arolwg Ailgyssylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 (a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru) nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd, dim ond 6% ddywedodd yn ddigymell nad oeddent yn 'ymddiried' yn y rhyngwrwd neu eu bod yn meddwl ei fod yn agored i gael ei gamddefnyddio (e.e. ymosod ar breifatrwydd, hacio, dwyn manylion personol). Wrth holi ymhellach, fodd bynnag, dywedodd 41% fod preifatrwydd neu bryderon diogelwch yn ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd. Ymysg y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwd oherwydd pryderon ynghylch preifatrwydd a diogelwch, y pryder mwyaf yw'r posibilrwydd y gallai eraill ddwyn eu manylion banc / cerdyn credyd (61%), a'r pryder mwyaf ond un yw'r perygl y gall pobl eraill gael gafael ar eu manylion personol

¹⁷ http://www.fincap.org.uk/wales_strategy

(31%). Mae hyn yn awgrymu bod pryderon diogelwch a phreifatrwydd yn faes pwysig o hyd sydd angen mynd i'r afael ag ef wrth helpu pobl i fynd ar-lein a gwneud mwy ar-lein. Gall sicrwydd gan sefydliadau ariannol, gwerthwyr a darparwyr gwasanaethau ar-lein ynglŷn â'u mesurau atal twyll a chanllawiau annibynnol ar fancio diogel ar-lein fod o gymorth hefyd.

Ymrwymiad – bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cysylltiadau priodol rhwng hyrwyddo cynhwysiant digidol a chynhwysiant ariannol yn cael eu cynnwys yn y fersiwn diwygiedig o'r Fframwaith Strategol ar Gyflawni Cynhwysiant Digidol a'r Cynllun Cyflenwi.

Mae gennym amgylchedd dysgu rhithwir dwyieithog yma yng Nghymru – Hwb – sy'n cynnig adnoddau dysgu ac addysgu ar-lein i ddysgwyr 3-19 oed a'u hathrawon.

Mae Fframwaith Cynhwysiant Digidol newydd ledled y cwricwlwm wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn ei roi ar waith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym mis Medi 2016. Bydd y Fframwaith yn helpu ysgolion i gynnwys gallu digidol yn rhan o'r dysgu ac addysgu ac yn helpu disgyblion i ehangu a datblygu eu sgiliau digidol.

Addysg Ariannol

Bydd sgiliau a gwybodaeth ariannol a ddatblygir yn yr ysgol yn helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn ystod eu bywyd gwaith ac fel oedolion. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i roi cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth gadarn o natur arian a'r defnydd ohono, fel bod ganddynt nid yn unig y wybodaeth i'w helpu i reoli arian o ddydd i ddydd, ond hefyd i'w gwneud yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrifoldeb ariannol. Yn y pen draw, bydd ein hymrwymiad i gynnwys gallu ariannol yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (LNF) yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am arian yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Bu addysg ariannol yn rhan o faes llafur ysgolion Cymru ers 2008. Mae'n rhan o'r cwricwlwm mathemateg yn ogystal â'r fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol, a Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Mae sgiliau manwl yn ymwneud â rheoli arian a chynhwysiant ariannol o fewn y Fframwaith, sy'n ofyniad statudol i ddisgyblion 5-14 oed ers mis Medi 2013.

Cafodd rhaglen statudol newydd ar gyfer astudio mathemateg yng Nghymru ei chyflwyno ym mis Medi 2015 ac mae'n cwmpasu disgyblion 7 i 16 oed (cyfnodau allweddol 2 i 4). Mae'r rhaglen astudio newydd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth ariannol sy'n briodol i oedran y plentyn, nid yn unig trwy gynyddu gallu a rhesymu rhifyddol, ond hefyd trwy elfennau penodol o 'reoli arian'.

Mae newidiadau i'r cwricwlwm hefyd yn effeithio ar y broses o ail-lansio Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd, sy'n fwy trylwyr. Prif nod y cymhwyster haenog hwn yw galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd, a medrusrwydd ynddynt, gyda chryn bwyslais ar lythrennedd rhifedd a digidol.

Mae cyflwyno Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn cyd-fynd ag addysgu'r maes llafur Mathemateg newydd – TGAU rhifedd o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'r cymwysterau hyn yn gyfle i asesu sgiliau a gwybodaeth dysgwyr, gan gynnwys agweddau fel:

- egwyddorion sylfaenol cyllid personol a'r cartref, gan gynnwys tanwydd a biliau eraill, hurbwrcasu, gostyngiad, TAW, trethi, cymharu prisiau, cyflogau, ad-dalu benthyciadau, morgeisi, cyllidebu, cyfraddau cyfnewid a chomisiwn;
- llog syml;
- elw a cholled;
- arian tramor a chyfraddau cyfnewid;
- gwneud gwaith cyfrifo yn ymwneud â busnes, cynilo a benthycu, buddsoddi, adbrisiant a dibrisiant.

Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus ar ddiwygio'r cwricwlwm ac asesu yn darparu ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad - modd o gyfuno pynciau ac agweddau pwysig eraill ar ddysgu er mwyn hyrwyddo cysylltiadau a chyfleoedd i ddefnyddio dysgu mewn ffyrdd newydd. Mae Dyfodol Llwyddiannus yn pennu Meysydd Dysgu a Phrofiad mathemateg a rhifedd ac yn awgrymu eu bod yn cynnwys profiadau er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i feithrin eu sgiliau ariannol.

Bydd gweithredu'r cwricwlwm a'r arholiadau newydd yn cael ei ategu gan y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu amryw o gyrsgau dysgu proffesiynol o'r radd flaenaf er mwyn helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau addysgeg (dysgu ac addysg effeithiol) ac arweinyddiaeth – gan gynnwys addysgeg pwnc benodol.

Ymrwymiad – bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y TGAUau mathemateg newydd, Bagloriaeth Cymru a'r rhaglen astudio mathemateg ar ei newydd wedd yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ledled yr holl sefydliadau addysg a gynhelir yng Nghymru, a'u bod wedi'u hategu gan y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad o ansawdd y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

Ymrwymiad: trwy gylch gwaith y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn, byddant yn gyfrifol am adolygu'r gwaith o ddysgu ac addysgu addysg ariannol yng Nghymru.

Gall ysgolion neu sefydliadau allanol roi addysg ariannol mewn ysgolion. Yn ôl Cyngor ar Bopeth, sy'n gweithio gydag ysgolion, mae wedi cael adborth cadarnhaol dros ben gan ddisgyblion ac athrawon yn sgil ei sesiynau gallu ariannol.

Aeth Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro ati i gydweithio â phum ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg (mewn partneriaeth â Vibe Experience Ltd) fel rhan o'u prosiect Rheoli Arian Pobl Ifanc 2013. Roedd yn cynnwys sawl myfyriwr o uned cyfeirio disgyblion lleol. Prif nod y prosiect, a ariannwyd trwy Cymunedau yn Gyntaf Bro Morgannwg, oedd atal dyledion a chodi ymwybyddiaeth o reolaeth ariannol wael, nid dim ond gan bobl ifanc, ond eu teuluoedd hefyd.

Fe wnaeth 260 o bobl ifanc 14-18 oed gymryd rhan mewn sesiynau a oedd yn trafod pynciau fel bancio, cyllidebu, credyd a dyledion. Roedd adnoddau'n cynnwys fideos a grëwyd gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, a helpodd i roi blas go iawn ar yr anawsterau a gafodd eraill wrth reoli eu harian. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn dysgu am y costau benthyca sy'n gysylltiedig â ffynonellau gwahanol o gredydau ac, wrth ystyried enghreifftiau gwahanol o gyllidebu, sut roedd eu hanghenion a'u dymuniadau unigol yn amrywio.

Dywedodd tua 90 y cant o'r disgyblion a gwblhaodd y gwerthusiad (tua 160 o ymatebwyr) eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am gyllidebu a bod ganddynt ddealltwriaeth well o fancio, credyd a lle i gael cymorth gyda phroblemau dyled yn sgil y sesiynau hyn.

Mae Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru wedi defnyddio arian a gymerwyd oddi ar fenthycwyr arian didrwydded i ddatblygu deunyddiau addysgu er mwyn helpu i addysgu plant a phobl ifanc sut i reoli eu harian yn ddoeth a thynnu sylw at beryglon benthycwyr arian didrwydded. Mae un pecyn yn addas i blant 5-11 oed, a'r llall ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed. Mae'r deunyddiau dwyieithog wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac ar gael i'w lawrlwytho o'i gwefan dysgu digidol, Hwb.

Fel rhan o raglen lansio pecynnau addysgol Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru ym mis Mawrth 2015, cafodd disgyblion blwyddyn 7 Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau wersi gan ddefnyddio'r deunyddiau addysg hyn. Aethpwyd â'r disgyblion trwy sefyllfaoedd go iawn, cyn gweithio mewn timau bach i ateb cwestiynau, chwarae gemau a chystadlu am y sgôr uchaf.

Meddai'r Pennaeth Mathemateg: "Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod angen i blant fod yn fwy effro yn ariannol er mwyn osgoi disgyn i dwll ariannol yn ddiweddarach yn eu hoes... wedi'r cyflwyniad hwn ar fenthycwyr arian didrwydded, byddwn yn datblygu'r thema ymhellach o fewn yr ysgol."

Cafodd un disgybl 12 oed flas ar y sesiwn, gan ddweud "Roedd yn dipyn o hwyl i ddysgu amdano, er mwyn osgoi gwneud camgymeriadau yn y dyfodol." Dywedodd ei chyd-ddisgybl fod y cyfan wedi bod "yn wych – yn ogystal â dysgu am bethau difrifol, roedd yn ddoniol hefyd. Dw i wedi dysgu llawer iawn heddiw."

Mae modd gwella addysg ariannol yn yr ysgol trwy roi'r hyn a ddysgwyd ar waith – gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnal clwb cynilo ar y cyd ag undeb credyd. Yn ogystal â chefnogi dysgu a dealltwriaeth y plant o werth arian, mae clybiau cynilo mewn ysgolion hefyd yn helpu teuluoedd trwy annog pawb i reoli arian

yn gyfrifol. Mae clybiau cynilo ysgolion yn rhoi cyfle i blant fynd i'r arfer o gynilo arian yn gynnar, dysgu am yr opsiynau ariannol gwahanol sydd ar gael a sut i reoli eu harian wrth fynd yn hŷn.

Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Trelái, Caerdydd, yn cynnig enghraifft arloesol o glwb cynilo ysgol. Mae 6 gwirfoddolwr sy'n ddisgyblion yn rhedeg y clwb dan oruchwyliaeth gwirfoddolwyr hŷn. Maent yn casglu cynilion bob wythnos, gyda disgyblion blwyddyn 6 yn hyfforddi a chadw llygad ar ddisgyblion iau ym mlynnyddoedd 4 a 5, a'u helpu i feithrin sgiliau rheoli arian.

Mae cynilwyr yn cael credyd amser am gynilo, a'r gwirfoddolwyr yn cael credydau amser ychwanegol am reoli eu clwb cynilo. Mae'r cynllun credyd amser yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr ysgol, ac mae modd defnyddio'r credydau mewn sawl canolfan chwaraeon, hamdden a chelfyddydol leol.

Mae'r model wedi sicrhau cynaliadwyedd ymhlith gwirfoddolwyr a chynilwyr y clwb. Y gobaith yw cyflwyno'r model hwn i ysgolion uwchradd lleol.

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector Undebau Credyd ac yn hyrwyddo'r defnydd o glybiau cynilion ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd.

Mae pwysigrwydd addysg ariannol yn ymestyn y tu hwnt i gwricwlwm yr ysgol, gyda chyfleoedd i hyrwyddo arferion ariannol da trwy gyfrwng addysg uwch a phellach, addysg i oedolion yn y gymuned a chyfleoedd dysgu anffurfiol eraill.

Mae cymwysterau galwedigaethol BTEC wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan fyfyrwyr y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen i addysg uwch neu fynd i'r byd gwaith yn syth trwy ymgymryd â gweithgareddau ymarferol cysylltiedig â gwaith mewn cyd-destun go iawn, fel y gallant gymhwyso'r hyn a ddysgwyd.

Mae yna gymhwyster BTEC sy'n cwmpasu materion fel rheoli arian a risg, llwyddiant gyrfaol a hunan-barch.

Mae canllawiau "SWEET" (succeeding with education, employment and training) yn dysgu disgyblion Blwyddyn 9 sut i lwyddo.

Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â disgyblion "NEET" (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Mae bron i 1,000 o bobl ifanc y De yn dilyn y cynllun – a 95% ohonynt wedi llwyddo i gael cymhwyster TGAU lefel 1 neu 2.

Mae gwasanaethau lles myfyrwyr ar gael i'r rhai sydd mewn addysg bellach ac addysg uwch, gan ddarparu gwybodaeth am bob math o faterion gan gynnwys grantiau myfyrwyr. Hefyd, mae'n gallu cyfeirio myfyrwyr, neu ddarparu atgyfeiriadau, at ddarparwyr cyngor arbenigol lle bo'n briodol. Mae llawer o golegau a phrifysgolion yng Nghymru yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Mae canllawiau rhagweithiol ac ataliol ar gyfer dysgwyr o bob oed yn gallu hyrwyddo dyfodol sy'n fwy sefydlog yn

ariannol a'u helpu i ddeall sut i wneud y dewisiadau mwyaf priodol i sicrhau eu bod yn lleihau'r perygl o galedi ariannol yn y dyfodol.

Dywed elusen Money Charity fod galw mawr am ei gweithdai ôl-16 oed yng Nghymru, sy'n darparu sgiliau rheoli arian pwysig a gwybodaeth am gyllid i fyfyrwyr, gan gynnwys cyllid myfyrwyr prifysgol. ColegauCymru oedd rheolwr dau brosiect llythrennedd ariannol yng Nghymru a ariannwyd gan sefydliadau'r DU: Lloyds Banking Group: Arian am Oes a Banc Barclays: Barclays Prepare for Work. Mae'r prosiect Arian am Oes wedi dod i ben bellach, ond mae Lloyds Banking Group wedi cyhoeddi y bydd yn lansio rhaglen gymunedol newydd yn 2016 sy'n canolbwyntio ar wella gallu ariannol pobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'n bosibl y bydd y rhaglen yn cynnwys gwaith ieuenctid a mentora cymheiriaid.

Roedd cystadleuaeth genedlaethol Arian am Oes yn darparu grantiau bach er mwyn helpu timau o bobl ifanc 16-24 oed i ddatblygu prosiectau rheoli arian arloesol a oedd yn effeithio ar eu cymunedau.

Mae ColegauCymru wedi meithrin partneriaeth ag Youth Cymru i hyrwyddo'r gystadleuaeth Arian am Oes: Yr Her yng Nghymru. Fe wnaeth 250 o grwpiau o bobl ifanc 16-24 oed gymryd rhan mewn prosiectau Rheoli Arian yn eu cymunedau yn ystod pedair blynedd y rhaglen, sydd bellach wedi dod i ben.

Tîm o Gymru o'r enw DOSH a enillodd gystadleuaeth Prydain gyfan Arian am Oes: Yr Her 2015. Fel tîm, roedd y criw ifanc yn ei chael hi'n anodd rheoli arian, ac aethant ati i roi sgwrs llawn gwybodaeth i fyfyrwyr Basaleg am reolaeth ariannol a'u gwahodd i 'Big Event' – lle gwahoddwyd siaradwyr gwadd o sefydliadau gwahanol i sôn am bwysigrwydd rheoli arian. Aeth DOSH ati i drefnu a hwyluso gemau rhyngweithiol a oedd yn pwysleisio gwerth rheoli arian a chael hwyl yr un pryd.

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn gweithio i annog sefydliadau'r sector cyhoeddus i noddi prosiectau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (arferion busnes cyfrifol) sy'n ymwneud ag addysg / gallu ariannol.

Mae cyngor ariannol ar ei orau os yw'n cael ei ddarparu gan rywun y mae'r unigolyn yn ymddiried ynddo. Plant o dan 7 oed sy'n fwyaf tebygol o ddilyn cyngor eu rhieni. Mae'r glasod hwythau hefyd yn fwy tueddol o droi at eu rhieni o hyd.

Mae rhieni a gofalwyr yn gallu bod yn ddylanwad allweddol ar allu ariannol trwy fod yn esiampl dda o ymddygiad ariannol da; rhoi cyngor ariannol a siarad yn agored â'u plant am arian; a darparu cyfle i gael profiad o reoli arian. Gall plant cyn oed ysgol ddechrau dysgu am faterion ariannol gan eu rhieni a'u gofalwyr yn y cartref, ac mae'r broses yn parhau gydol eu plentyndod wedyn.

Bydd y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chronfa Loteri Fawr Cymru ac amryw o dimau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Awdurdodau Lleol yn cynnal cynllun peilot - Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian. Bydd y cynllun peilot yn profi effeithiolrwydd rhaglenni a gynlluniwyd i wella gallu ariannol plant drwy weithio gyda rhieni. Wedi'i gynllunio gyda gwerthusiad hydredol dwy flynedd, y nod yw creu tystiolaeth drylwyr o effaith rhaglenni rianta a pha mor gosteffeithiol ydynt. Bydd y cynllun peilot yn codi ymwybyddiaeth rhieni o'u cyfraniad pwysig ac yn magu'r awydd, yr hyder a'r gallu ynddynt i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o oedolion â gallu ariannol.

Mae cynorthwyo rhieni i wella eu gallu ariannol eu hunain a'u helpu i gynnal eu plant yn gallu gwella gallu ariannol Cymru. Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn cydweithio â theuluoedd yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys materion ariannol. Mae enghreifftiau pellach o'r hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi teuluoedd ar gael yn atodiad Strategaeth Gallu Ariannol MAS.

Mae amseriad addysg ariannol cyn bwysiced â faint o addysg a ddarperir. Yr hyn sydd ei angen yw addysg ariannol "mewn da bryd". I lawer o bobl ifanc, mae'r cyfnod oedran 16-18 yn golygu y byddant yn symud ymlaen i addysg uwch, yn cychwyn eu bywyd gwaith, neu'n sefydlu cartref am y tro cyntaf ac felly bydd angen gwybodaeth well arnynt i ddeall goblygiadau'r digwyddiadau pwysig hyn, gwir gostau byw a sut i reoli eu harian eu hunain.

Mae addysg uwch yn arwain at sawl her ariannol i bobl ifanc, gan gynnwys talu a rheoli costau addysg a chostau byw, yn ogystal â'r gallu i fenthycu arian. Yn ôl NUS Cymru,¹⁸ mae myfyrwyr sydd wedi cael addysg ariannol yn fwy tebygol o gael lefelau is o ddyledion a lefelau llesiant uwch.

Bydd plant a phobl ifanc sydd mewn gofal yn derbyn addysg ariannol yn yr ysgol, ond efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau bod ganddynt allu ariannol i reoli eu harian wrth adael y system ofal. Wrth adael gofal, dylent o leiaf wybod pa adnoddau ar-lein, neu adnoddau eraill, sydd ar gael i'w helpu i gyllidebu ac unrhyw faterion ariannol eraill, a pha ddarparwyr cymorth sydd ar gael os ydynt angen cymorth pellach.

Roedd argymhellion o adroddiad Llais Defnyddwyr Cymru *'From care to where? How young people cope financially after care'*¹⁹ yn cynnwys: "...co-ordinate financial education activity to ensure that care leavers not in formal education receive financial education in ways that are most appropriate to their circumstances"; and, "explore different methods of delivering financial education, such as using Peer Educators, to help those preparing to leave care understand the financial choices they may face when living independently for the first time".

¹⁸ *Pound in Your Pocket*, Cymru 2014

¹⁹ *From Care to Where? How young people cope financially after care*, Llais Defnyddwyr Cymru, 2011

Mae gweithwyr ieuenctid mewn sefyllfa unigryw i allu ymateb i allu ariannol mewn ffordd greadigol ac ar yr adeg gywir neu ar 'adegau addysgadwy' fel pan fo'r unigolyn ifanc yn dechrau byw yn annibynnol, neu'n troi'n 18 oed ac yn gallu cael credyd am y tro cyntaf. Mae ymyriadau ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau addysg anffurfiol fel clybiau ieuenctid a gwaith maes/gwaith ieuenctid annibynnol yn amrywiol ac ad hoc.

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn darparu adnoddau anabledau dysgu er mwyn helpu'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc, ac mae SNAP Cymru yn darparu hyfforddiant neu wybodaeth ar gyfer Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'r rhai a all fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau partner a'u cynorthwyo i hyrwyddo ac annog mentrau gallu ariannol wedi'u hanelu at rieni, teuluoedd, plant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy ymyriadau anffurfiol ac ymyriadau rhwng cymheiriaid.

Mae addysg ariannol yn gallu darparu'r sgiliau a'r wybodaeth i blant a phobl ifanc allu cefnogi a chynnal eu hunain gydol eu hoes, ond mae'n rhaid i ni hefyd ystyried sut i ddarparu neu wella'r sgiliau hyn i oedolion.

Bydd oedolion yn datblygu eu safbwyntiau eu hunain ar sut i reoli eu harian, ond ni fyddant yn eu helpu i wneud dewisiadau da bob amser o safbwynt cyfrifon banc, cyllidebu o ddydd i ddydd, derbyn credyd neu gynilo ar gyfer y dyfodol. Gall eu safbwyntiau adlewyrchu sut mae eu rhieni, perthnasau eraill neu ffrindiau yn rheoli eu harian, a gall yr agweddau hyn gael eu trosglwyddo wedyn i'r genhedlaeth iau. Dylai addysg ariannol ar gyfer oedolion sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â materion ariannol.

Mae'n bosibl y bydd rhai oedolion yn llai parod i gymryd rhan mewn sesiynau gallu ariannol oherwydd ffactorau fel diffyg hyder, diffyg hunanbarch ac ofn y bydd disgwyl iddynt ddysgu rhywbeth newydd. Efallai y bydd angen ymyriadau lluosog, yn hytrach nag un ymyriad gallu ariannol, i sicrhau bod oedolion yn gallu rheoli eu harian eu hunain yn hyderus.

Nid yw rhai pobl hŷn yn barod ar gyfer heriau posibl yn hwyrach yn eu bywydau, a gall eu gwytnwch ariannol gael ei wanhau gan ddigwyddiad annisgwyl neu sioc ariannol sy'n deillio o golli swydd, afiechyd sydyn neu brofedigaeth. Mae'n bwysig bod pobl o bob oed yn gallu cael gafael ar addysg ariannol.

Gall cyrsiau addysg/gallu ariannol gael eu cyflwyno trwy gyfleusterau addysg i oedolion yn y gymuned neu drwy gyrsiau penodol gan ddarparwyr cyngor a sefydliadau eraill. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan os yw cyrsiau'n cael eu hyrwyddo fel "rheoli'ch arian" yn hytrach nag "addysg ariannol" neu "gymorth cyllidebu". Yn ogystal â threfnu cyrsiau penodol, gall y sefydliadau hyn hefyd gyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cyngori os ydynt yn ymwybodol bod angen rhywfaint o gyngor ariannol arnynt.

Wrth i aelwydydd yng Nghymru symud tuag at Gredyd Cynhwysol, maent yn fwy tebygol o fod angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gyllidebu, bancio a mynd ar-lein

wrth i fudd-daliadau gael eu talu bob mis, gan gynnwys taliadau rhent yn uniongyrchol i'r tenant yn hytrach na'r landlord. Mae gan Gymdeithasau Tai bryderon am gynydd mewn ôl-ddyledion rhent a'r lefelau o gymorth a fydd eu hangen ar denantiaid - fel y gwelwyd pan fu Tai Cymunedol Bron Afon Cyf yn rhan o brosiect peilot Arddangosiad o Daliadau Uniongyrchol Adran Gwaith a Phensiynau San Steffan.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol yn darparu Cymorth Cyllidebu Personol i hawlwr wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul tipyn. Mae sawl Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi cynnwys adnoddau'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol a ddatblygwyd i helpu pobl drwy'r newidiadau hyn.

Gyda chynifer o asiantaethau a sefydliadau yn helpu pobl i wella eu gallu ariannol, mae grwpiau amlasiantaeth fel y tri Fforwm Gallu Ariannol ar gyfer ardaloedd y Gorllewin, y De a'r Canolbarth, a'r Gogledd yn ffordd bwysig o hyrwyddo gwaith partneriaeth a rhannu arferion da.

Mae rhaglen Cefnogi Pobl²⁰ Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i bobl agored i niwed trwy eu helpu i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fyw'n annibynnol. Mae'n gallu cynnwys cyngor ar reoli cyllid personol a chyfeirio pobl at wasanaethau eraill fel cyngor ariannol a chyngor ar ddyled. Yn aml, mae angen cymorth ar y bobl fwyaf agored i niwed i gyrchu a defnyddio'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael sy'n gysylltiedig â phroblemau ariannol. Ond mae angen ystyried cyngor ariannol a chyngor ar ddyled ochr yn ochr â materion eraill fel cam-drin domestig, alcoholiaeth, digartrefedd a sefyllfaoedd eraill sy'n gwneud pobl yn agored i niwed. Yn benodol, dylai landlordiaid cymdeithasol, darparwyr cymorth tai ac Awdurdodau Lleol sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref sicrhau eu bod yn cael eu galluogi a'u hannog i gael cyngor ar arian a dyledion cyn gynted â phosibl cyn bod eu tenantiaeth mewn perygl.

Gwneud y Defnydd Gorau o Gyllidebau'r Cartref / Personol

Mae'n bosibl y bydd darparwyr cyngor yn gallu helpu pobl i fanteisio i'r eithaf ar eu hincwm personol neu incwm y cartref, ond mae pobl yn gallu gwneud sawl peth eu hunain i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'u hincwm ac yn osgoi colli arian neu wario mwy na'r hyn sydd ei angen.

Gall gwella gallu ariannol pobl helpu i sicrhau nad ydynt yn dioddef troseddau, cam-drin a thwyll ariannol. Er bod digwyddiadau o'r fath yn gallu effeithio ar bobl o bob oed, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn amcangyfrif bod dros 40,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn dioddef cam-drin ariannol, gan golli £1,200 o'u cynilion ar gyfartaledd oherwydd twyll ar garreg y drws, dros y ffôn, ar-lein neu drwy'r post.

Mae darparwyr cyngor wedi nodi bod gamblo – naill ai ar-lein neu ar y stryd fawr – yn broblem gynyddol wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyllidebu a dyled. Dylai ymyriadau gallu ariannol, gan gynnwys cymorth cyllidebu, helpu pobl i wneud dewis ar sail gwybodaeth ynglŷn â gamblo.

²⁰ <http://gov.wales/docs/desh/publications/150901-supporting-people-factsheet-cy.pdf>

Mae adnoddau ar-lein yn gallu helpu pobl i wario llai ar wasanaethau hanfodol i'r cartref neu gael bargeinion gwell ar gyfer nwyddau a gwasanaethau.

Mae rhai gwefannau yn darparu gwybodaeth gyffredinol - weithiau'n seiliedig ar eich cod post chi - fel costau tanwydd, tra bod eraill angen gwybodaeth am y cartref neu'r unigolyn dan sylw. Er enghraifft, mae modd i bawb elwa ar wefannau cymharu prisiau a gwasanaethau newid cwmnïau, boed am yswiriant car neu'r cartref neu filiau'r tŷ, sy'n ystyried gofynion yr aelwyd neu'r unigolyn.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn o bobl sy'n newid tariff neu gyflenwyr ynni yng Nghymru er bod digon o wefannau cymharu prisiau a gwybodaeth fanwl am filiau ynni ar gael. Bydd gallu ariannol gwell yn helpu pobl i ddeall eu biliau ynni a'r dewisiadau eraill sydd ar gael iddynt. Gall Cymdeithasau Tai gynorthwyo tenantiaid i leihau costau cyfleustodau drwy ad-daliadau Disgownt Cartrefi Clyd a Chronfa Cymorth i Gwsmeriaid Dŵr Cymru. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol hefyd yn rhan o gynlluniau NYTH a Chronfa Cymorth i Gwsmeriaid Dŵr Cymru sy'n hyrwyddo gwybodaeth am gynlluniau ledled eu hardaloedd.

Mae mwy a mwy o wefannau hefyd yn darparu talebau neu'n rhestru codau gostyngiadau i'w defnyddio i leihau cost amrywiaeth o eitemau, gan gynnwys nwyddau siopau'r stryd fawr neu ar-lein, prydau mewn bwytai neu wyliau.

Ymrwymiad: Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r defnydd o enghreifftiau o arbed arian, neu beidio â gwario mwy nag sydd raid, fel ffordd o gynnwys pobl mewn mentrau cynhwysiant digidol.

Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd, a phartneriaid eraill, i weithredu'r ymrwymladau yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon drwy Gynllun Cyflenwi sydd i'w ddatblygu yn 2016.

Geirfa

Term	Diffiniad ar gyfer y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol
Cyngor	Rhoddir cyngor gan gynghorwyr sy'n gweithio gyda rhywun i drafod opsiynau amrywiol, sut maen nhw'n berthnasol i sefyllfa'r unigolyn a phenderfynu ar ba gamau i'w cymryd (a'u helpu i wneud hynny). Dim ond darparwyr sydd wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol sy'n gallu rhoi cyngor ar arian a dyledion.
Meysydd dysgu a phrofiad	Cyfuno pynciau ac agweddau eraill ar ddysgu er mwyn annog cysylltiadau a chyfleoedd i gymhwyso dysgu mewn ffyrdd newydd.
Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (CDFI)	Mae Sefydliad Cyllid Datblygu Cymunedol (CDFI) yn sefydliad ariannol sy'n darparu gwasanaethau credyd ac ariannol i bobl a chymunedau nad ydynt yn cael gwasanaeth llawn gan fanciau a benthyccwyr masnachol prif ffrwd.
Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (arferion busnes cyfrifol)	Menter gorfforaethol i asesu ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am effeithiau'r cwmni ar les amgylcheddol a chymdeithasol.
Sgôr credyd	Amcangyfrif o allu unigolyn neu sefydliad i gyflawni eu hymrwymadau ariannol, yn seiliedig ar drafodion blaenorol.
Cyfraniadau wedi'u diffinio	Math o gynllun pensiwn lle mae'r cyflogwr, y gweithiwr, neu'r ddau yn gwneud cyfraniadau pensiwn rheolaidd.
Incwm gwario	Faint o arian sydd gan aelwydydd yn weddill i'w wario a'i gynilo ar ôl talu treth incwm a gwario ar bethau hanfodol.
Canllawiau	Mae canllawiau'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am amgylchiadau'r unigolyn, ond ni fydd yn argymhell unrhyw gynhyrchion penodol nac yn dweud wrth yr unigolyn beth i'w wneud.
Gwybodaeth	Deunydd cyffredinol mewn print neu ar-lein yw gwybodaeth fel arfer, sy'n cyflwyno'r ffeithiau ac yn annog pobl i wneud penderfyniadau annibynnol.

Cyfrif pot jam (neu gyfrif cyllidebu neu gyfrif rhent)	Mae swm penodol o arian sy'n cael ei dalu i gyfrif pot jam yn cael ei neilltuo ar gyfer biliau hanfodol. Wedyn, mae'r biliau hyn yn cael eu talu trwy ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog. Mae'r arian sy'n weddill ar gael i'r defnyddiwr i'w wario, naill ai gyda cherdyn rhagdalau neu trwy godi arian o'r peiriant twll yn y wal.
"NEETs"	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
Darparwyr cyngor dielw	Darparwr cyngor sy'n rhoi cyngor am ddim o fewn sefydliad nad yw'n ceisio gwneud elw.
Ardaloedd Cynnyrch	Mae Ardaloedd Cynnyrch yn sylfaen ddaearyddol ar gyfer casglu a chyhoeddi ystadegau, ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio ers Cyfrifiad 2001. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/beginner-s-guide/census/index.html
Addysgeg	Dulliau ac arferion addysgu.
Rhwydwaith Ysgolion Arloesol	Rhwydwaith o ysgolion sy'n arwain y blaen o ran cynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd ac elfennau o'r fargen newydd.
Premiwm tlodi	Y gost ychwanegol y gall pobl ar incwm isel ei thalu am nwyddau a gwasanaethau, o gymharu â'r gost y mae teuluoedd incwm uwch yn ei thalu am yr un nwyddau a gwasanaethau.
Nodweddion gwarchodedig	Y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn pobl â nodwedd warchodedig.
Corff statudol	Corff a sefydlwyd gan y llywodraeth i ystyried tystiolaeth a gwneud penderfyniadau mewn maes penodol.
Ardaloedd Cynnyrch Ehangach	Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn sylfaen ddaearyddol ar gyfer casglu a chyhoeddi ystadegau ardaloedd bach. Maent yn cael eu defnyddio ledled y maes Ystadegau Gwladol ac fe'u cynlluniwyd i wella'r broses o roi gwybod am

	ystadegau ardaloedd bach. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/beginner-s-guide/census/index.html
Cyfrif trafodol	Cyfrif banc lle mae'r deiliad yn gallu codi arian neu drosglwyddo arian i drydydd partïon.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)	Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n diogelu hawliau dynol plant o dan 18 oed. Mae'r confensiwn yn cynnwys 54 o erthyglau. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol hon yn nodi'r erthyglau perthnasol a sut mae'r Strategaeth hon yn cyfrannu atynt.
Credyd Cynhwysol	Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith a Budd-dal Tai. Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu bob mis mewn taliad sengl i aelwyd yn hytrach nag unigolyn. Mae hyn yn cynnwys costau tai a delir bob mis fel ôl-daliad.
Atgyfeiriad cynnes	Fel rhan o atgyfeiriad cynnes, mae darparwr gwasanaethau A yn cysylltu â darparwr gwasanaethau B ar ran ei gleient. Ar ôl cael caniatâd, gall Gwasanaeth A ddarparu gwybodaeth gefndir neu hanes achos i wasanaeth B a/neu fynychu Gwasanaeth B gyda'r cleient.